# Ymgynghoriad: Dynodi Gwasanaethau Rhaglenni Rhyngrwyd y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus

Y dulliau y bydd Ofcom yn eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau dynodi

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd 11 Chwefror 2025
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 25 Mawrth 2025

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ....... 3

2. Cefndir ....... 5

3. Gwasanaethau Rhaglenni Rhyngrwyd y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ....... 7

4. Fframwaith arfaethedig ar gyfer dynodi IPS ....... 12

5. Prosesau arfaethedig ar gyfer gwneud cais am ddynodiad IPS a'i ddirymu ....... 22

## Atodiad

A1. Datganiad drafft o ddulliau ar gyfer dynodi IPS ....... 26

A2. Y fframwaith cyfreithiol ....... 33

A3. Asesiadau effaith ....... 41

A4. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn ....... 43

A5. Egwyddorion ymgynghori Ofcom ....... 46

A6. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad ....... 47

A7. Cwestiynau'r ymgynghoriad ....... 49

# 1. Trosolwg

1.1 Mae gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSBs) le unigryw yng nghymdeithas y DU. Maent yn darparu newyddion dibynadwy a chywir, ac amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel gan, ar gyfer ac am bobl y DU sy’n dod â chynulleidfaoedd at ei gilydd. Mae ein hymchwil wedi dangos yn gyson bod pobl ledled y wlad yn parhau i werthfawrogi’r cynnwys hwn ac yn troi ato, boed hynny ar gyfer newyddion ac adloniant o ddydd i ddydd neu ddigwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol arwyddocaol.[1] Felly, mae’n hanfodol bod gwylwyr yn gallu darganfod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus a dod o hyd iddo’n hawdd.

1.2 Mae’r fframwaith rheoleiddio a nodir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf) wedi sicrhau bod sianeli teledu llinol PSBs (sef, gwasanaethau teledu darlledu cyhoeddus y BBC, gwasanaeth Channel 3, Channel 4, Channel 5 ac S4C) wedi bod ar gael yn eang ac yn hawdd eu canfod mewn amserlenni rhaglenni electronig ers degawdau. Fodd bynnag, hyd nes pasio Deddf Cyfryngau 2024 (Deddf Cyfryngau), nid oedd unrhyw reolau i sicrhau amlygrwydd cynnwys gwasanaeth cyhoeddus mewn amgylcheddau cyfryngau ar-lein.

1.3 Mae’r Ddeddf Cyfryngau wedi cyflwyno trefn amlygrwydd ac argaeledd ar-lein newydd sy’n canolbwyntio ar lwyfannau teledu cysylltiedig sy’n galluogi pobl i ddewis a chael gafael ar raglenni ac apiau teledu sy’n cael eu darparu drwy’r apiau hynny. Bydd y drefn newydd hon yn mynnu bod llwyfannau teledu cysylltiedig penodol yn sicrhau bod BBC iPlayer ac apiau teledu PSBs eraill, yn ogystal â’u cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, ar gael, yn amlwg ac yn hygyrch. Yn gyfnewid am y buddion newydd hyn, mae’n rhaid i PSBs sicrhau bod eu hapiau teledu yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at gyflawni eu gorchwylion gwasanaeth cyhoeddus unigol (gorchwyl unigol), a bod cynulleidfaoedd yn gallu dod o hyd i gynnwys gwasanaeth cyhoeddus arnynt a’i wylio.

1.4 Cyfeirir at lwyfannau teledu cysylltiedig a allai ddod o fewn cwmpas y rheolau newydd hyn yn y ddeddfwriaeth fel ‘gwasanaethau dethol teledu’ (TSS). Yr Ysgrifennydd Gwladol sy’n penderfynu pa TSS a ddynodir, ond mae’n rhaid iddo fod wedi cael adroddiad gydag argymhellion gan Ofcom yn gyntaf. Ym mis Rhagfyr 2024, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad am yr egwyddorion a’r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth gynhyrchu’r adroddiad hwnnw.

1.5 Fodd bynnag, rôl Ofcom yw penderfynu pa apiau teledu PSB – a elwir yn ‘wasanaethau rhaglenni rhyngrwyd’ (IPS) yn ffurfiol – sy’n bodloni’r amodau a nodir mewn deddfwriaeth i gael budd o’r drefn amlygrwydd ac argaeledd newydd. Mae’r ymgynghoriad hwn yn nodi ein dulliau arfaethedig ar gyfer asesu pa IPS y dylid eu dynodi.

1.6 Mae’r ymgynghoriad hwn wedi’i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae **Adran 2** yn egluro’r cefndir a’n cynllun ar gyfer gweithredu’r drefn amlygrwydd ac argaeledd newydd.
- Mae **Adran 3** yn egluro’r diffiniad o IPS. Mae hefyd yn darparu cyd-destun cysylltiedig ynghylch perfformiad IPS PSBs, a chynlluniau’r Darlledwyr hynny i ddatblygu’r gwasanaethau hyn ymhellach.
- Mae **Adran 4** yn egluro ein fframwaith arfaethedig a’r dulliau rydym yn bwriadu eu defnyddio wrth benderfynu dynodi IPS ai peidio.

[1] Ofcom, Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (2019-23), t. 10.

- Mae **Adran 5** yn egluro ein prosesau arfaethedig i ddarparwyr IPS eu dilyn wrth wneud cais i ddynodi IPS, ac i Ofcom ddirymu dynodiad IPS.
- Mae **Atodiad 1** yn cynnwys ein Datganiad o Ddulliau drafft.
- Mae **Atodiad 2** yn nodi'r fframwaith cyfreithiol.
- Mae **Atodiad 3** yn nodi'r asesiadau effaith.
- Mae **Atodiadau 4-6** yn darparu manylion ar sut mae ymateb i'r ymgynghoriad.

1.7 Rydym yn croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn **25 Mawrth 2025**. Ar ôl i ni ystyried yr ymatebion, byddwn yn cyhoeddi Datganiad terfynol o Ddulliau cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.

### Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Rydym yn cynnig defnyddio'r dull canlynol wrth wneud ein penderfyniadau ynghylch dynodi IPS a ddarperir gan drwyddedeion Channel 3, C4C, Channel 5 neu S4C.[2] Mae'r dull hwn yn ystyried yr amodau a nodir yn y Ddeddf Cyfryngau yn ogystal â'r ffactorau y mae'n rhaid i ni eu hystyried wrth benderfynu a fyddai dynodiad yn briodol:

- **Amod 1: A yw'r Gwasanaeth Rhaglenni Rhyngrwyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol, neu'n gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol, at orchwyl unigol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus?** Byddwn yn ystyried cylch gwaith unigol pob PSB wrth asesu arwyddocâd, a disgwyliwn y dylai IPS gynnwys yn gyffredinol yr holl gynnwys mae'r PSB wedi nodi, yn ei ddatganiad polisi rhaglenni (SoPP), a fwriedir i gyflawni ei gylch gwaith unigol.[3]
- **Amod 2: A yw'r cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus a gynhwysir yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo gan yr IPS?** Dylai'r mannau gyda lefelau traffig uchel ar yr hafan yn ogystal â nodweddion a mannau eraill â lefelau traffig uchel[4] yr IPS ymgorffori "cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus" (cynnwys PSR) yn bennaf.[5] Byddwn yn ystyried gwybodaeth a ddarperir gan ddarparwyr IPS sy'n egluro sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni a sut y bydd eu dull o guradu[6] yn helpu i hyrwyddo a sicrhau bod modd dod o hyd i gynnwys PSR yn rhwydd. Yn anad dim, mae'n rhaid i ddarparwyr IPS hyrwyddo a sicrhau bod newyddion a materion cyfoes ynghyd ag amrywiaeth eang o gynnwys sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu, yn hawdd eu canfod o fewn mannau gyda lefelau traffig uchel yr IPS.
- **A yw'n briodol i Ofcom ddynodi'r IPS?** Byddwn yn ystyried cynigion PSB yn ei SoPP ynghylch y cyfraniad y bydd yr IPS yn ei wneud i'w gylch gwaith unigol, sut y bydd yr IPS yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion a buddiannau cynifer o wahanol gynulleidfaoedd â phosibl, a dull y PSB o fonitro perfformiad.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae'r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch, a'n rhesymeg, wedi'u nodi yn adrannau 4 a 5 isod.

---

[2] Bydd ap teledu a ddarperir gan y BBC yn cael ei ddynodi'n awtomatig gan y Ddeddf (Adran 362AA(1)(a) o'r Ddeddf. Nid yw'r ddarpariaeth hon wedi'i dwyn i rym hyd yma.

[3] Mae PSBs trwyddedig ac S4C yn gallu defnyddio 'gwasanaethau clyweledol perthnasol' – fel y diffinnir yn adran 264(11) o'r Ddeddf – ochr yn ochr â'u prif sianel deledu i gyfrannu at gyflawni eu gorchwylion unigol. Er mwyn cyflawni eu gorchwylion unigol, mae'n rhaid i'r PSBs trwyddedig ac S4C hefyd wneud "cyfraniad digonol" at y rhwymedigaeth gyfunol ar bob PSB i gyflawni'r cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer teledu yn y DU a nodir yn adran 264(4) o'r Ddeddf.

[4] Mae 'man traffig uchel' yn cyfeirio at fan yn yr IPS sy'n cael ei gweld a/neu ei defnyddio gan nifer sylweddol o bobl pan fyddant yn defnyddio'r IPS.

[5] Diffinnir cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus yn y Ddeddf fel deunydd sydd wedi'i gynnwys yn yr IPS sy'n cyfrannu at gyflawni cylch gwaith unigol PSBs trwyddedig neu S4C (Adran 362AA(12) o'r Ddeddf).

[6] Mae 'curadu' yn golygu dewis, trefnu a chyflwyno cynnwys yn yr IPS.

# 2. Cefndir

## Mae'r Ddeddf Cyfryngau yn cyflwyno rheolau newydd i sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael ac yn cael lle amlwg ar-lein

2.1 Mae'r degawd diwethaf wedi gweld newid radical yn y ffordd rydym yn cael gafael ar newyddion, gwybodaeth ac adloniant. Er bod gwasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu'n fyw yn dal i gael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi'n eang, mae'r lefel ehangach o ddewis sy'n cael ei galluogi gan newid technolegol ac sy'n cael ei chroesawu gan gynulleidfaoedd wedi digwydd law yn llaw â'r gostyngiad mewn gwylio a gwrando llinol.

2.2 Ar ôl sawl degawd lle'r oedd eu gwasanaethau wedi'u strwythuro o amgylch dosbarthiad llinol, mae darlledwyr wedi bod yn addasu i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU wedi datblygu chwaraewyr sy'n cynnig cynnwys gwreiddiol, yn ogystal â rhywfaint o raglenni unigryw a thrwyddedig, y gellir cael gafael arnynt ar amrywiaeth eang o ddyfeisiau cysylltiedig. Fodd bynnag, hyd yma, nid yw'r chwaraewyr hyn wedi bod yn rhan o'r fframwaith ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.[7]

2.3 Mae'r drefn newydd a gyflwynwyd gan Ran 2 o'r Ddeddf Cyfryngau – a oedd yn mewnosod Rhan 3A i'r Ddeddf – yn adlewyrchu'r argymhellion a wnaethom i Lywodraeth y DU yn 2021 ac yn adeiladu ar y rheolau amlygrwydd sy'n berthnasol i deledu llinol.[8] Amcan craidd y dull newydd hwn yw i wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a chynnwys barhau i fod "ar gael i'r mwyafrif helaeth o'r boblogaeth."[9]

2.4 I gyflawni hyn, bydd y drefn newydd yn cynnwys llwyfannau teledu cysylltiedig[10] nad yw Ofcom wedi'u rheoleiddio o'r blaen yn y cwmpas. Mae'n canolbwyntio ar yr hyn mae'r Ddeddf yn ei alw'n 'wasanaethau dethol teledu' (TSS) ac mae angen gwasanaethau dethol teledu dynodedig (y cyfeirir atynt fel 'TSS a reoleiddir' neu 'RTSS')[11] i sicrhau bod IPS dynodedig (DIPS)[12] ar gael ac yn amlwg arnynt.[13] Rhaid i ddarparwyr RTSS hefyd sicrhau bod

---

[7] Ond mae gan rai PSBs ddyletswyddau presennol mewn perthynas â'r chwaraewyr hyn, gweler paragraffau 3.11 i 3.13 isod.

[8] Ofcom, Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr – Argymhellion i'r Llywodraeth ar ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, t. 3.

[9] Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Bil Cyfryngau 2024: Nodiadau Esboniadol, t. 5.

[10] Ofcom, Y farchnad llwyfannau teledu cysylltiedig. Diweddariad ar ein gwaith, t. 3.

[11] Adran 362AF(1) o'r Ddeddf.

[12] Fel y diffinnir yn Adran 362AA(1) o'r Ddeddf.

[13] Adrannau 362AK a 362AO(1) o'r Ddeddf.

y cynnwys yn y DIPS sy'n cyfrannu at gyflawni gorchwylion unigol PSBs[14] wedi'i leoli'n amlwg ar eu gwasanaethau[15] a bod RTSS yn hygyrch i bobl ag anableddau.[16]

# Gweithredu'r drefn newydd

2.5 Mae cam cyntaf ein gwaith o weithredu hyn yn canolbwyntio ar ddynodi'r TSS a'r IPS sy'n ddarostyngedig i'r rheolau. Er mai'r Ysgrifennydd Gwladol sydd i ddynodi TSS,[17] cyfrifoldeb Ofcom yw penderfynu a yw IPS y PSBs trwyddedig ac S4C yn bodloni'r amodau ar gyfer dynodi a nodir yn y Ddeddf.[18] Mae'n rhaid i Ofcom gyhoeddi datganiad am y dulliau y bydd yn eu defnyddio wrth benderfynu a yw'r amodau dynodi ar gyfer IPS yn cael eu bodloni, ac a yw IPS dynodedig yn methu â bodloni'r amodau dynodi mwyach.[19]

2.6 Mae'r ddogfen hon yn egluro'r rhesymeg dros ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer y Datganiad hwn o Ddulliau, ac mae drafft ohono yn atodiad 1. Mae Atodiad 2 yn cynnwys crynodeb o'n dyletswyddau statudol perthnasol, gan gynnwys disgrifiad o'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer dynodi IPS a'r rhwymedigaethau y bydd darparwyr DIPS yn ddarostyngedig iddynt.[20] Mae Atodiad 3 yn nodi'r asesiadau effaith.

2.7 Ein nod yw cyhoeddi'r Datganiad terfynol o Ddulliau yn ystod yr haf 2025. Y cam nesaf fydd i ddarparwyr IPS perthnasol gyflwyno ceisiadau dynodi i Ofcom (trafodir y broses arfaethedig ar gyfer gwneud hynny yn adran 5), a byddwn yn penderfynu a yw eu IPS yn bodloni'r meini prawf dynodi sydd wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth. Cyn dynodi IPS, byddwn yn ymgynghori â PSBs a phartïon eraill sydd â diddordeb.[21]

2.8 Bydd ail gam y gweithredu yn canolbwyntio ar baratoi'r Codau Ymarfer, a fydd yn nodi sut gall darparwyr RTSS gydymffurfio â'u dyletswyddau o ran amlygrwydd a hygyrchedd.[22] Byddwn hefyd yn paratoi ein Canllawiau ar sut gall darparwyr RTSS a PSBs weithredu'n gyson gyda'r amcanion y mae'n rhaid eu cyflawni pan fyddant yn trafod trefniadau cludo.[23] Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y dogfennau hyn tua diwedd 2025.

---

[14] Mae gan bob Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus orchwyl gwasanaeth cyhoeddus y mae'n rhaid iddo'i gyflawni. Mae rhagor o wybodaeth am y gorchwylion hyn i'w gweld yn atodiad 2.

[15] Mae'r cyfeiriad at roi lefel briodol o amlygrwydd i wasanaeth rhaglenni rhyngrwyd dynodedig mewn RTSS yn cynnwys cyfeiriad at roi "lefel briodol o amlygrwydd" i "gynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus" ac "unrhyw sianel a restrir sydd wedi'i chynnwys yn y gwasanaeth rhaglenni rhyngrwyd dynodedig hwnnw, i'r graddau y gellir effeithio ar amlygrwydd y cynnwys neu'r sianel honno drwy weithredu'r RTSS" (Adran 362A(3) o'r Ddeddf).

[16] Adran 362AO(4) o'r Ddeddf.

[17] Ym mis Rhagfyr 2024, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar yr egwyddorion a'r dulliau arfaethedig y byddwn yn eu defnyddio wrth wneud ein hargymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â dynodi TSS.

[18] Adran 362AA(2) o'r Ddeddf.

[19] Adran 362AC(1) o'r Ddeddf.

[20] Bydd y fframwaith cyfreithiol hwn hefyd yn cael ei atodi i'n Datganiad o Egwyddorion a Dulliau pan gyhoeddir y fersiwn terfynol.

[21] Adran 362AA(9) o'r Ddeddf.

[22] Adran 362AP o'r Ddeddf.

[23] Adrannau 362AL a 362AM o'r Ddeddf.

# 3. Gwasanaethau Rhaglenni Rhyngrwyd y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus

3.1 Yn yr adran hon rydym yn nodi sut mae'r Ddeddf yn diffinio gwasanaethau rhaglenni rhyngrwyd, yn egluro pwysigrwydd cynyddol IPS y PSBs fel ffordd i bobl gael gafael ar gynnwys a'i wylio, ac yn disgrifio'r strategaethau sydd gan y PSBs ar waith i ddatblygu eu IPS.

## Diffiniad o IPS


3.2 O dan y Ddeddf mae IPS yn wasanaeth y mae modd cael gafael arno dros y rhyngrwyd, a'i "brif bwrpas" yw darparu rhaglenni i ddefnyddwyr. Gall IPS gynnwys un neu fwy o wasanaethau rhaglenni ar-alw, yn ogystal â gwasanaethau eraill fel gwasanaethau teledu llinol. Mae pob un o'r fersiynau diweddaraf o IPS y PSBs, sef BBC iPlayer, ITVX, Channel 4 Streaming, My5, STV Player ac S4C Clic, yn darparu mynediad at gymysgedd o raglenni llinol ac ar-alw.

3.3 Ar hyn o bryd un IPS sydd gan bob un o'r PSBs. O dan y Ddeddf, nid oes terfyn ar nifer yr IPS y gall PSB ofyn am ddynodiad ar eu cyfer, ar yr amod bod pob IPS yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol ar gyfer dynodi.

## Mae gwylio IPS yn gyfran gynyddol o gyfanswm gwylio cynnwys y PSBs

3.4 Mae'r degawd diwethaf wedi gweld newidiadau sylweddol yn sector darlledu'r DU. Gyda dyfodiad gwasanaethau ffrydio ac ar-alw, mae'r dewis o raglenni a gwasanaethau sydd ar gael i wylwyr wedi ehangu tra bo'r nifer sy'n gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu'n fyw wedi bod yn gostwng yn raddol dros y tymor hir. Mae'r duedd hon yn arbennig o amlwg ymysg y cynulleidfaoedd ieuengaf; ers 2013, mae nifer y bobl 16-24 oed sy'n gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu wedi gostwng 78%, o 2 awr 29 munud i 33 munud yn 2023.

**Ffigur 1: Nifer y munudau a dreulir ar gyfartaledd bob dydd yn gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu, yn ôl oedran: 2018-2023**





Ffynhonnell: Data 28 diwrnod cyfunol BARB, setiau teledu yn unig.

3.5 Yn yr un modd â gwylio teledu yn gyffredinol, mae cynulleidfaoedd yn gynyddol yn dewis gwylio cynnwys PSB ar-alw. Roedd lefelau gwylio gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr (BVoD), fel BBC iPlayer neu ITVX, wedi tyfu 29% rhwng 2022 a 2023, er nad oedd hyn yn ddigon i wneud iawn yn llwyr am y gostyngiad yn lefelau gwylio sianeli llinol, fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 2 isod.

3.6 Mae cyfran gwylio BVoD o'i gymharu â llinol yn amrywio yn ôl darlledwr. Mae lefelau gwylio'r BBC a Channel 4 yn gwyro mwy tuag at eu gwasanaethau BVoD (sy'n cyfrif am 18% a 16% o gyfanswm y gwylio yn y drefn honno), tra bo Channel 5 yn dal yn llinol yn bennaf, gyda 95% o'i lefelau gwylio ar sianeli llinol darlledu a 5% ar ei wasanaeth BVoD, My5. Yn benodol, ar gyfer y BBC, ITV a Channel 4, roedd cyfran y BVoD o gyfanswm eu hamseroedd gwylio wedi cynyddu pedwar pwynt canran o un flwyddyn i'r llall, er mai twf ITV oedd yr uchaf yn gyfrannol, o ystyried ei sylfaen is yn 2022.

**Ffigur 2: Nifer y munudau a dreulir bob dydd yn gwylio teledu llinol a gwasanaethau fideo ar-alw ar gyfartaledd, yn ôl darlledwr: 2022-2023**




% of broadcasters' content viewed on BVoD

| | 2022 | 2023 |
|---|---|---|
| BBC: | 14% | 18% |
| ITV/STV: | 7% | 11% |
| Channel 4: | 12% | 16% |
| Channel 5: | 4% | 5% |
| S4C: | 5% | 7% |

Ffynhonnell: Barb fel y'i gwelwyd ar setiau teledu a dyfeisiau eraill sy'n defnyddio rhwydwaith WiFi y cartref, unigolion 4+. Mae 'teledu llinol'
yn cyfeirio at nifer gwylwyr ar draws yr holl sianeli darlledu sy'n eiddo i bob darlledwr (boed nhw'n cael eu gwylio'n fyw neu ar
wasanaeth dal i fyny). Mae BVoD yn cynnwys yr holl gynnwys sy'n cael ei wylio drwy'r gwasanaethau ar-alw sy'n eiddo i bob darlledwr, gan gynnwys rhaglenni heb fod yn llinol.

## Mae PSBs yn datblygu strategaethau ar gyfer eu IPS

3.7 Mewn ymateb i newidiadau mewn arferion cynulleidfaoedd, mae PSBs yn datblygu ac yn buddsoddi'n helaeth yn eu IPS. Er enghraifft, ym mis Rhagfyr 2022, ail-lansiodd ITV ei IPS fel ITVX, sydd â galluoedd technegol gwell o'i gymharu â'i ragflaenydd, ITV Hub, ac mae wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y cynnwys sydd ar gael y gwasanaeth.[24] Ym mis Ionawr 2024, datgelodd Channel 4 strategaeth pum mlynedd newydd, *Fast Forward,* a thrwy hynny mae'r darlledwr yn bwriadu dod yn 'ffrydiwr gwasanaeth cyhoeddus digidol yn gyntaf' erbyn 2030.[25] Ar ben hynny, mae rhiant-gwmni Channel 5, Paramount, wedi dweud y bydd yn ail-lansio My5 fel '5' yn ddiweddarach yn 2025, gyda'r gwasanaeth wedi'i adfywio'n cynnig mwy o gynnwys, gan gynnwys o gatalog ehangach Paramount.[26]


3.8 Mae'r PSBs wedi manteisio ar yr hyblygrwydd y mae technoleg IPS yn ei gynnig i ehangu catalogau cynnwys IPS, arbrofi â 'ffenestri' (ynghylch pryd mae cyfres, a faint ohoni, ar gael ar-alw), a gwella profiad y defnyddiwr ac ymarferoldeb yr IPS (er enghraifft, drwy bersonoli a hysbysebion sy'n seiliedig ar ddata).

3.9 Mae faint o gynnwys sydd ar gael ar IPS y PSBs wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Ffigur 3 yn dangos bod yr oriau catalog cronnus a oedd ar gael ar draws BBC iPlayer, ITVX, Channel 4 Streaming a My5 wedi codi 47% ym mis Mai 2024 o'i gymharu â mis Mai 2022. Mae'r oriau a ychwanegwyd wedi bod yn y genres drama ac adloniant/realiti yn bennaf. O ran ITVX, roedd y genres hyn gyda'i gilydd yn cyfrif am ddwy

[24] Tudalen we: ITV yn cyhoeddi lansiad gwasanaeth ffrydio newydd ITVX
[25] Tudalen we: Strategaeth Fast Forward.
[26] Tudalen we: Channel 5 & Streamer My5 To Become 5

ran o dair o'r ychwanegiadau. Mae'r twf yn oriau catalog BBC iPlayer dros y ddwy flynedd ddiwethaf hefyd wedi bod yn sylweddol ac – fel ITVX – mae wedi'i sbarduno gan ehangiad rhaglenni drama ac adloniant/realiti.

**Ffigur 3: Oriau cynnwys gwasanaethau BVoD darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn ôl genre: 2020-2024**




Ffynhonnell: Ampere Analysis. Mae oriau catalog ITVX yn rhai i'w gwylio am ddim yn unig.

3.10 Un o'r pethau sy'n sbarduno buddsoddi mewn cynnwys PSB ar-lein yw'r gystadleuaeth sylweddol mae PSBs yn ei hwynebu mwy a mwy am gynulleidfaoedd ac am refeniw hysbysebu gan chwaraewyr byd-eang. Fel y nodwyd yn ein Hadolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus diweddaraf, mae'r PSBs yn canolbwyntio fwyfwy ar fuddsoddi mewn cynyrchiadau gwerth uchel er mwyn denu cynulleidfaoedd i'w IPS.[27] Er enghraifft, mae ITV wedi dweud bod ei strategaeth cynnwys wedi "esblygu'n sylweddol" gyda ffocws ar "dân gwyllt" neu gynnwys yn "genres arwrol" drama, realiti, chwaraeon ac adloniant, ochr yn ochr â "choelcerthi" fel cyfresi cyfan a ffilmiau sy'n cynnig "cyfnodau gwylio hirfaith".[28] Yn yr un modd, mae strategaeth gomisiynu digidol yn gyntaf Channel 4 yn canolbwyntio'n benodol ar y "mathau o raglenni sy'n sbarduno twf ffrydio ac yn cyflawni ei gylch gwaith" gyda phwyslais ar "deitlau newydd cryfach, ond llai ohonynt, i sicrhau graddfa ac effaith fwy".[29]

3.11 Hyd yn hyn, mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau mae'r PSBs wedi'u gwneud i ehangu'r ddarpariaeth drwy eu IPS wedi bod yn ddewisiadau strategol eu hunain, yn hytrach na rhai sy'n deillio o'r fframwaith rheoleiddio. Fodd bynnag, mae gan y BBC a Channel 4 ddyletswyddau'n barod mewn perthynas â'r gwasanaethau hyn.

3.12 Yn 2023, cyhoeddodd Ofcom ein datganiad ar Drwydded Weithredu newydd y BBC sydd nawr yn rheoleiddio gwasanaethau ar-lein y BBC yn gynhwysfawr, gan gynnwys BBC iPlayer a BBC Sounds. Roedd hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau bod cynnwys

[27] Ofcom, Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (2019-23), t. 55.
[28] Tudalen we: ITVX's content strategy: Hero genres, higher volume and catching the long tail.
[29] Tudalen we: Strategaeth Fast Forward.

pwysig, gan gynnwys rhai ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau a rhaglenni "mewn perygl",[30] ar gael i gynulleidfaoedd ar-lein, a sicrhau ei bod hi'n hawdd dod o hyd i'r cynnwys hwnnw.

3.13 Yn y cyfamser, mae gan Channel 4 amrywiaeth o ddyletswyddau[31] cynnwys cyfryngau statudol ers blynyddoedd y gall eu cyflawni ar draws unrhyw wasanaethau darlledu neu ar-lein, gan gynnwys Channel 4 Streaming.

[30] Mae Cytundeb y BBC yn rhestru genres sy'n cyfrannu'n benodol at y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus nad ydynt yn cael eu darparu'n ddigonol neu sy'n dirywio ar draws sianeli'r Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus (cerddoriaeth, celfyddydau, crefydd a chynnwys ffeithiol arbenigol arall, comedi a rhaglenni plant), a chyfeiriwn at y rhain fel rhai sydd 'mewn perygl.'

[31] Mae'r dyletswyddau cynnwys cyfryngau wedi'u nodi yn adran 198A o'r Ddeddf.

# 4. Fframwaith arfaethedig ar gyfer dynodi IPS

4.1 Gall Ofcom ddynodi IPS y PSB trwyddedig – hynny yw, trwyddedeion Channel 3, C4C a Channel 5 – neu S4C.[32] Mae'r Ddeddf yn rhoi meini prawf ar waith ynghylch pwy sy'n gallu rheoli IPS, y cyfraniad y mae'n rhaid i'r IPS ei wneud (neu allu ei wneud) i gylch gwaith unigol y PSB, a'r cynnwys y dylid ei gynnig er mwyn iddo gael ei ddynodi. Mae'r adran hon yn crynhoi'r fframwaith rheoleiddio ac yn egluro'r dulliau rydym yn cynnig eu defnyddio i wneud penderfyniadau ynghylch dynodi IPS ac, os oes angen, dirymu dynodiad.

## Fframwaith Dynodi IPS

4.2 Cyn i ni wneud unrhyw benderfyniad ynghylch dynodi IPS, mae'n rhaid i Ofcom fod yn fodlon yn gyntaf bod darparwr yr IPS yn PSB trwyddedig, S4C neu'n unigolyn sy'n gysylltiedig â nhw, o fewn y telerau a bennir gan y Ddeddf.

4.3 At hynny, ni chaiff Ofcom ddynodi IPS oni bai bod y gwasanaeth yn bodloni amodau penodol:

a) Mae'r IPS yn gwneud cyfraniad arwyddocaol, neu'n gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol, at gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol (Amod 1) y PSB; a
b) Mae'n hawdd dod o hyd i raglenni sydd wedi'u cynnwys yn yr IPS sy'n cyfrannu at gylch gwaith[33] y PSB ac maent yn cael eu hyrwyddo gan y gwasanaeth[34] (Amod 2).

4.4 At hynny, mae'n rhaid i Ofcom ystyried ei bod yn briodol dynodi'r IPS.[35]

4.5 Yn y paragraffau canlynol, rydym yn nodi sut rydym yn cynnig penderfynu a yw'r meini prawf hyn yn cael eu bodloni.

## Pwy yw darparwr yr IPS?

4.6 Er mwyn i IPS fod yn gymwys i gael ei ddynodi, mae'n rhaid i PSB neu berson cysylltiedig ddangos bod ganddynt 'reolaeth gyffredinol' dros yr IPS. Mae ystyr 'rheolaeth gyffredinol' sy'n berthnasol yn amrywio yn dibynnu ar y math o IPS dan sylw ac mae'n cael ei egluro'n fwy manwl yn y Datganiad drafft o Ddulliau (gweler paragraffau A1.14 i 1.16 yn y Datganiad o Ddulliau yn atodiad 1).

[32] Adran 362AA o'r Ddeddf. Mae'r IPS a ddarperir gan y BBC yn cael ei ddynodi'n awtomatig o dan adran 362AA(1)(a) o'r Ddeddf (nid yw wedi dod i rym eto).
[33] Cyfeirir at raglenni sy'n cyfrannu at gylch gwaith PSB yn y Ddeddf fel "cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus" (cynnwys PSR).
[34] Adrannau 362AA(3) a (4) o'r Ddeddf.
[35] Adran 362AA(2)(b) o'r Ddeddf.

## Amod 1: A fyddai'r IPS yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at orchwyl unigol y PSB?

4.7 Mae'r Ddeddf Cyfryngau yn diweddaru'r fframwaith rheoleiddio i roi mwy o hyblygrwydd i PSBs o ran sut maent yn cyflawni eu rhwymedigaethau. Rhan o'r hyblygrwydd hwn yw y gall PSBs nawr gyflawni eu gorchwylion ar unrhyw wasanaethau perthnasol maent yn eu darparu eu hunain, neu wasanaethau sy'n cael eu darparu gan drydydd parti o dan drefniadau rhwng y PSB a'r trydydd parti hwnnw,[36] ac sydd ar gael yn rhad ac am ddim.[37]

4.8 Mae Amod 1 wedi'i ddylunio i sicrhau bod IPS dynodedig yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at gylch gwaith unigol y PSB perthnasol. Gall IPS hefyd gynnig cynnwys nad yw'n cyfrannu at gylch gwaith unigol y PSB, fel cynnwys y telir amdano. Fodd bynnag, ni fyddwn yn ystyried deunydd o'r fath wrth asesu a yw Amod 1 yn cael ei fodloni.

### Beth yw cyfraniad arwyddocaol?

4.9 Wrth benderfynu a yw Amod 1 yn cael ei fodloni, rydym yn cynnig ystyried 'arwyddocâd' yng nghyd-destun cylch gwaith unigol pob PSB. Mae'n rhaid i bob PSB ddarparu amrywiaeth (neu amrywiaeth eang yn achos C4C ac S4C) o gynnwys amrywiol o ansawdd uchel[38] sydd, o'i ystyried yn ei gyfanrwydd, hefyd yn "gyfraniad digonol" at y rhwymedigaeth gyffredinol ar bob PSB i gyflawni'r cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer teledu'r DU (cylch gwaith cyffredinol PSB).[39]

4.10 Rydym o'r farn y byddai cynulleidfaoedd yn debygol o gael budd petai IPS yn cynnig yr holl gynnwys ar y gwasanaethau clyweledol perthnasol (gwasanaethau perthnasol) y mae'r PSB wedi nodi yn ei SoPP a fwriedir i gyflawni cylch gwaith unigol y PSB. Bydd hyn yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael yn hwylus ar y deunydd hwn mewn un lle. Yn ogystal â chefnogi'r nod bod gan bobl sy'n defnyddio RTSS fodd o gael gafael yn rhwydd ar amrywiaeth o gynnwys sy'n bodloni eu hanghenion, rydym yn credu y dylai ein cynnig hefyd helpu pobl i ddarganfod cynnwys newydd a allai fod o ddiddordeb iddynt ac na fydden nhw'n dod ar ei draws fel arall o bosibl.

4.11 Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y gall fod eithriadau lle nad yw'n bosibl nac yn briodol i ddarparwr IPS sicrhau bod cynnwys penodol ar gael sy'n cyfrannu at gylch gwaith y PSB ar ei IPS. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai darparwr yr IPS egluro hyn.

### Beth sy'n digwydd mewn achosion lle mae PSB yn dymuno dynodi ail neu IPS arall?

4.12 Caiff Ofcom ddynodi mwy nag un IPS yn gysylltiedig â'r un PSB petai darparwr IPS yn dymuno cyflwyno cais neu geisiadau pellach.[40] I gael ei ddynodi, dylai nod ail neu IPS arall fod i ddiwallu anghenion a buddiannau cynulleidfa benodol. Fel enghraifft, efallai y bydd

[36] Adran 264(13) o'r Ddeddf.
[37] Adran 264(8) o'r Ddeddf.
[38] Adran 265(2) a (3) o'r Ddeddf (ar gyfer y PSBs trwyddedig); Paragraff 3 o Atodlen 12, Rhan 2 o'r Ddeddf (ar gyfer S4C).
[39] Adran 264(4) o'r Ddeddf.
[40] Adran 362AA(7)(b)(i) o'r Ddeddf.

PSB yn gofyn am ddynodiad ar gyfer IPS sydd wedi'i dargedu'n benodol at ddiwallu anghenion a buddiannau plant.

4.13 Os bydd darparwr IPS yn gwneud cais i ddynodi IPS arall sy'n gwasanaethu anghenion a buddiannau cynulleidfa benodol, rydym yn cynnig y dylai'r darparwr IPS gynnwys ar yr IPS hwnnw yr holl gynnwys ar y gwasanaethau perthnasol y mae'r PSB wedi nodi yn ei SoPP a fwriedir i gyflawni'r agweddau ar ei gylch gwaith unigol sy'n berthnasol i'r gynulleidfa honno. Fel yn achos IPS 'sylfaenol', rydym yn cydnabod y gall fod eithriadau lle nad yw'n bosibl nac yn briodol i ddarparwr IPS sicrhau bod cynnwys penodol ar gael ac, mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r darparwr IPS egluro hyn.

## Cynnig

4.14 Rydym yn cynnig defnyddio'r dulliau canlynol wrth benderfynu a yw'r IPS yn gwneud cyfraniad arwyddocaol, neu'n gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol, at gylch gwaith unigol y PSB:

a) Byddwn yn ystyried arwyddocâd yng nghyd-destun cylch gwaith unigol pob PSB.
b) Byddwn yn ystyried i ba raddau y bydd y cynnwys y mae'r PSB yn bwriadu ei ddefnyddio i gyflawni ei gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol yn cael ei gynnwys yn yr IPS.
c) Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr IPS yn cynnwys yn yr IPS yr holl gynnwys ar y gwasanaethau perthnasol y mae'r PSB wedi nodi yn ei SoPP a fwriedir i gyflawni ei gylch gwaith unigol.
d) Pan fydd darparwr IPS yn gwneud cais i ddynodi ail neu IPS arall a fyddai'n ceisio diwallu anghenion a buddiannau cynulleidfa benodol, dylai'r darparwr IPS gynnwys ar yr IPS hwn yr holl gynnwys y mae'r PSB yn bwriadu ei ddefnyddio i gyflawni'r agweddau ar ei gylch gwaith unigol sy'n berthnasol i'r gynulleidfa benodol honno.

**Y cwestiwn ymgynghori**

C1. Ydych chi'n cytuno â'n dulliau arfaethedig ar gyfer penderfynu a yw'r IPS yn gwneud cyfraniad arwyddocaol, neu'n gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol, at orchwyl gwasanaeth cyhoeddus unigol y PSB?

4.15 Mae'r dulliau hyn wedi'u nodi yn y Datganiad drafft o Ddulliau yn atodiad 1 ym mharagraffau A1.18-1.21.

# Amod 2: A fyddai cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar yr IPS yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo?

4.16 Mae Amod 2 yn mynnu bod y cynnwys PSR sydd ar gael ar IPS yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo. Wrth asesu a yw'r amod hwn yn cael ei fodloni, rydym yn cynnig ystyried yr wybodaeth mae darparwyr IPS yn ei chyflwyno am eu cynlluniau i gyflawni hyn, ac a yw cynnwys PSR sy'n arbennig o bwysig i gynulleidfaoedd yn cael ei hyrwyddo ac yn hawdd ei ganfod yn yr IPS.

## Sut dylid sicrhau bod cynnwys PSR yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo?

4.17 Fel y nodwyd yn ein Datganiad ar Drwydded Weithredu newydd y BBC, rydym yn credu bod dod o hyd i gynnwys yn hwylus yn golygu galluogi cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gynnwys PSR yn yr IPS sy'n newydd iddynt ac a allai fod o ddiddordeb iddynt a/neu na fydden nhw'n dod ar ei draws fel arall o bosibl.[41] Credwn fod hyrwyddo yn golygu cymryd camau i dynnu sylw cynulleidfaoedd yn fwy at gynnwys PSR yn yr IPS fel eu bod yn gallu dod o hyd iddo'n hawdd a'i wylio.

4.18 Yn draddodiadol, mewn amgylchedd teledu llinol, mae amserlen y rhaglen wedi helpu Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus i gyflawni hyn. Er enghraifft, gallai PSBs roi rhaglen fwy arbenigol wrth ymyl rhaglen sy'n fwy poblogaidd, sy'n golygu bod modd i gynulleidfaoedd ddod i gysylltiad â chynnwys na fydden nhw fel arall o bosibl yn dewis ei wylio neu chwilio amdano. Gosod cynnwys llai poblogaidd rhwng cynnwys poblogaidd ('hammocking') ydy hyn, ac nid yw'n berthnasol yn yr un modd ar IPS lle mae cynulleidfaoedd yn gallu dewis eu cynnwys ar-alw. Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod PSBs yn sicrhau bod cynulleidfaoedd sy'n gwylio drwy IPS yn dal i ddod i gysylltiad ag ystod eang o gynnwys PSR.

4.19 Mae nifer o ffyrdd y gall darparwyr IPS sicrhau ei bod hi'n hawdd dod o hyd i gynnwys PSR ar eu IPS, yn ogystal â'i hyrwyddo, gan gynnwys drwy'r mannau a'r nodweddion ar ryngwyneb defnyddiwr yr IPS y mae nifer sylweddol o bobl yn eu defnyddio i chwilio, cael gafael ar gynnwys, a'i wylio. Gall enghreifftiau o nodweddion a meysydd 'traffig uchel' gynnwys:

- hyrwyddo rhaglenni ar 'faner arwr' (slot mwyaf ac amlycaf) yr hafan;
- rheiliau thema ar yr hafan, er enghraifft 'newyddion byw' a 'mwyaf poblogaidd';
- argymhellion o fewn y swyddogaeth chwilio;
- tabiau categorïau wedi'u curadu, er enghraifft 'drama' neu 'raglenni dogfen';
- rhaglenni awto-chwarae;
- argymhellion ar ddechrau neu ddiwedd rhaglenni; ac
- ymgyrchoedd sy'n ymwneud â themâu penodol, er enghraifft 'Mis Hanes Pobl Dduon'.

4.20 Rydym yn cynnig y byddwn yn ystyried yr wybodaeth a gyflwynir gan ddarparwyr IPS ynglŷn â'u cynlluniau i ddefnyddio mannau gyda lefelau traffig uchel ar yr hafan yn ogystal â nodweddion a mannau eraill â lefelau traffig uchel yr IPS i helpu cynulleidfaoedd i ddarganfod a dod o hyd i gynnwys PSR.

4.21 Efallai y bydd darparwyr IPS yn penderfynu defnyddio dulliau personoleiddio algorithmig i helpu cynulleidfaoedd i ddarganfod cynnwys PSR, er enghraifft gydag argymhellion yn seiliedig ar hanes gwylio defnyddiwr. Gall personoleiddio fod yn ddull defnyddiol o sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael cynnwys a fydd yn bodloni eu hanghenion a'u buddiannau. Fodd bynnag, rydym o'r farn y dylai darparwyr IPS ddefnyddio dulliau curadu addas mewn perthynas â'r IPS i sicrhau na fydd effaith andwyol ar allu cynulleidfaoedd i ganfod ystod eang o gynnwys PSR. Wrth ystyried a yw Amod 2 wedi'i fodloni, felly, rydym hefyd yn cynnig

[41] Ofcom, Datganiad: Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC, t. 20.

ystyried yr wybodaeth a gyflwynir gan ddarparwr IPS i egluro sut y bydd ei ddull o guradu (wedi'i arwain yn olygyddol a/neu algorithmig) yn helpu i hyrwyddo a sicrhau bod modd canfod cynnwys PSR yn rhwydd.

## Pa agweddau ar gyflwyno cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus (PSM) sy'n arbennig o bwysig i gynulleidfaoedd?

4.22 Mae PSBs yn wahanol i ddarparwyr cynnwys eraill gan ei bod yn ofynnol iddynt ddarparu amrywiaeth o raglenni ar draws genres er mwyn sicrhau'r dibenion mae'r Senedd Brydeinig wedi penderfynu sy'n werthfawr i gymdeithas. Er bod darparwyr cynnwys eraill yn gallu cynhyrchu cynnwys o'r fath (ac yn gwneud hynny), dim ond y cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan PSBs sy'n ofynnol o dan y rheoliadau. Yn unol â hynny, nid yw IPS yn debygol o fodloni Amod 2 os nad yw'r amrywiaeth eang o gynnwys na'r rhaglenni newyddion a materion cyfoes – sydd, gyda'i gilydd, yn cyfrif am lawer o gyfraniad unigryw PSBs i gyfryngau'r DU – yn hawdd eu canfod na'u hyrwyddo.


#### Amrywiaeth eang o gynnwys PSR sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu

4.23 Mae gorchwylion unigol PSBs yn mynnu eu bod yn sicrhau bod ystod o gynnwys amrywiol o ansawdd uchel ar gael.[42] Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghylch gwaith cyffredinol PSBs sydd â'r bwriad o sicrhau amrywiaeth eang o gynnwys i ddiwallu anghenion a bodloni buddiannau cynifer o wahanol gynulleidfaoedd â phosibl, gan gynnwys drwy ddarparu gwybodaeth, addysg ac adloniant iddynt.[43]

4.24 Mae Ffigur 4 isod yn dangos bod y PSBs yn parhau i gynhyrchu rhaglenni mewn amrywiaeth o genres sy'n darparu ar gyfer gwahanol ddiddordebau. Dros gyfnod 2019-23, roedd y rhan fwyaf (97%) o raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn cynnwys chwaraeon, adloniant, newyddion a materion cyfoes, drama, operâu sebon a chynnwys ffeithiol. Roedd y PSBs hefyd yn darparu rhaglenni mewn genres mwy arbenigol (er enghraifft, y celfyddydau a cherddoriaeth glasurol a rhaglenni plant), er bod gostyngiad cymedrol yn nifer oriau'r genres hyn sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn ystod y cyfnod hwn.

[42] Mae gorchwylion C4C ac S4C yn mynd ymhellach, ac yn mynnu eu bod yn sicrhau bod "ystod eang" o gynnwys amrywiol o ansawdd uchel ar gael.
[43] Adran 264(5)(b) o'r Ddeddf.

**Ffigur 4: Oriau rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn ôl genre, 2019-2023**




Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Mae'r ffigurau'n cynnwys y BBC ond nid ydynt yn cynnwys BBC ALBA a rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau.

4.25 Fel rydym yn ei egluro yn ein Hadolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus diweddaraf, mae PSBs yn ganolog i ddarparu cymysgedd eang o gynnwys sy'n adlewyrchu'r DU gyfan ac yn apelio at ystod eang o gynulleidfaoedd.[44] Mae ymchwil Ofcom yn dangos bod cynulleidfaoedd yn parhau i werthfawrogi'r agwedd allweddol hon ar ddarparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.[45]

4.26 Rydym o'r farn y dylai cynulleidfaoedd sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio, IPS y PSBs allu darganfod a dod o hyd yn hawdd i amrywiaeth eang o gynnwys PSR ar y gwasanaeth sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Felly, er mwyn bodloni Amod 2, rydym yn cynnig y dylai darparwyr IPS hyrwyddo a sicrhau bod modd dod o hyd yn hawdd i amrywiaeth eang o genres o gynnwys ar eu IPS i fodloni anghenion cynifer o wahanol gynulleidfaoedd â phosibl.

### Cynnwys newyddion a materion cyfoes

4.27 Mae darparu newyddion wedi bod wrth galon system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y DU ers ei sefydlu. Mae'r cylch gwaith cyffredinol wedi'i ddiweddaru yn mynnu bod PSBs yn rhoi sylw cynhwysfawr ac awdurdodol i newyddion rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol er mwyn helpu i hwyluso dealltwriaeth ddinesig a thrafodaeth deg a gwybodus.[46] Mae'r cyhoedd yn dal i werthfawrogi hyn. Fel y nodwyd yn ein Hadolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus diweddaraf, mae cynulleidfaoedd yn ystyried mai

---

[44] Ofcom, Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (2019-23), t. 10.

[45] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023. Gofynnwyd i ymatebwyr ar-lein beth oedden nhw'n teimlo oedd y tair nodwedd bwysicaf i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu darparu ar gyfer cymdeithas yn gyffredinol. 'Amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon' oedd yr ail briodoledd uchaf (45%).

[46] Adran 264(5)(a) o'r Ddeddf.

darparu newyddion dibynadwy a chywir yw cyfraniad pwysicaf y PSBs at gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus,[47] ac mae'n rhywbeth maen nhw'n ei wneud yn dda.[48]

4.28 Mae'r rhan fwyaf o'r PSBs eisoes yn cyflwyno eu cynnwys newyddion a materion cyfoes ar eu IPS, gan gynnwys drwy fideos ar-alw o straeon newyddion a ffrydiau penodol o'r rhaglenni newyddion llinol. Mae'r cyfleuster hwn yn dod yn fwy pwysig i wylwyr. Mae ymchwil Ofcom yn dangos, er bod teledu darlledu llinol yn parhau i fod yn un o'r llwyfannau sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf i gael gafael ar newyddion, bod cynulleidfaoedd yn gwylio mwy a mwy o newyddion a ddarperir gan y PSBs drwy eu IPS. Yn 2024, dywedodd dros bedwar o bob deg (43%) o wylwyr newyddion a ddarlledir wrthym eu bod yn defnyddio gwasanaethau ar-alw PSB ar gyfer newyddion, i fyny o 28% yn y flwyddyn flaenorol.[49]

4.29 O'r herwydd, mae'n arbennig o bwysig bod cynnwys newyddion a materion cyfoes yn cael ei hyrwyddo ac yn hawdd i ddefnyddwyr yr IPS ddod o hyd iddo. Rydym yn cynnig bod yn rhaid i ddarparwr IPS sicrhau bod hyn yn wir os yw Amod 2 am gael ei fodloni.

### Cynnwys nad yw'n PSR

4.30 Fel y nodwyd uchod, gall IPS dynodedig fod â chynnwys PSR a chynnwys nad yw'n PSR, fel cynnwys y telir amdano. Fodd bynnag, ni fydd Amod 2 yn cael ei fodloni os ydym yn credu bod hyrwyddo a'r gallu i ganfod cynnwys nad yw'n PSR yn cael effaith niweidiol ar hyrwyddo neu ganfod cynnwys PSR. Rydym yn cynnig y dylai'r mannau gyda lefelau traffig uchel ar yr hafan yn ogystal â nodweddion a mannau eraill â lefelau traffig uchel yr IPS (gweler paragraff 4.19 uchod) ddarparu cynnwys PSR yn bennaf. Os yw darparwyr IPS yn bwriadu cynnig cynnwys nad yw'n PSR ar yr IPS, byddem yn disgwyl iddynt egluro sut y byddant yn gwneud yn siŵr na fyddai hynny'n cael effaith niweidiol ar hyrwyddo a'r gallu i ganfod cynnwys PSR.

## Beth sy'n digwydd mewn achosion lle mae PSB yn dymuno dynodi ail neu IPS arall?

4.31 Fel y nodwyd ym mharagraff 4.12 uchod, gall PSB ofyn am ddynodiad ar gyfer ail neu IPS arall sydd wedi'i anelu at ddiwallu anghenion a buddiannau cynulleidfa benodol. Wrth wneud penderfyniad ynghylch dynodi, bydd Ofcom yn ystyried yr wybodaeth a gyflwynir gan ddarparwyr IPS ynghylch sut y byddir yn sicrhau bod cynnwys PSR yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo yn yr IPS ychwanegol hwn. Byddwn hefyd yn ystyried i ba raddau y mae'r IPS yn hyrwyddo ac yn sicrhau bod amrywiaeth eang o gynnwys PSR sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu, a chynnwys newyddion a materion cyfoes, yn hawdd ei ganfod. Os bydd darparwr IPS o'r farn, oherwydd natur yr ail neu IPS arall a'i gynulleidfa benodol arfaethedig, nad yw'n bosibl hyrwyddo na sicrhau bod y cynnwys hwn yn hawdd ei ganfod, dylai egluro hyn.

[47] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023. Gofynnwyd i ymatebwyr ar-lein beth oedden nhw'n teimlo oedd y tair nodwedd bwysicaf i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu darparu ar gyfer cymdeithas yn gyffredinol. Y briodoledd gyda'r sgôr uchaf oedd *'newyddion o'r DU sy'n ddibynadwy a chywir'* (49%).

[48] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023. Dywedodd 63% o wylwyr yn ystod y chwe mis diwethaf fod PSBs yn darparu *'newyddion o'r DU sy'n ddibynadwy a chywir'* yn dda.

[49] Ofcom, News consumption in the UK 2024 report, t. 11 a News consumption in the UK 2023 report, t.7

## Cynnig

4.32 Rydym yn cynnig defnyddio'r dulliau canlynol wrth benderfynu a yw'r cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'i gynnwys yn yr IPS yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo gan y gwasanaeth:

- Byddwn yn ystyried yr wybodaeth a gyflwynir gan ddarparwyr IPS sy'n egluro sut y byddir yn sicrhau bod cynnwys PSR yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo gan yr IPS. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth fel a ganlyn:
  a) sut y bydd cynnwys PSR yn cael ei lleoli mewn mannau gyda lefelau traffig uchel ar yr hafan yn ogystal â nodweddion a mannau eraill â lefelau traffig uchel yr IPS fel bod sylw cynulleidfaoedd at y cynnwys hwn yn debygol o gynyddu o'i gymharu â chynnwys nad yw'n PSR; a
  b) sut y bydd ei ddull o guradu (wedi'i arwain yn olygyddol a/neu algorithmig) yn helpu i hyrwyddo a sicrhau bod modd dod o hyd i gynnwys PSR yn rhwydd.
- Er mwyn bodloni Amod 2, rydym yn credu bod yn rhaid i ddarparwyr IPS hyrwyddo a sicrhau ei bod yn hawdd canfod deunydd mewn mannau traffig uchel ar yr hafan yn ogystal â mannau traffig uchel eraill a nodweddion yr IPS:
  c) amrywiaeth eang o gynnwys PSR sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu; a
  d) chynnwys newyddion a materion cyfoes.

4.33 Mae'r dulliau hyn wedi'u nodi yn y Datganiad drafft o Ddulliau yn atodiad 1 ym mharagraffau A1.22-1.26.

**Y cwestiwn ymgynghori**

C2. Ydych chi'n cytuno â'n dulliau arfaethedig ar gyfer penderfynu a yw'r cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'i gynnwys yn yr IPS yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo gan y gwasanaeth?

# A yw'n briodol dynodi'r IPS?

4.34 Cyn dynodi IPS, mae'n rhaid i Ofcom hefyd fod yn fodlon ei bod yn briodol gwneud hynny, gan ystyried rhai ffactorau penodol a nodir yn y Ddeddf.[50] Y ffactorau y mae'n rhaid i Ofcom eu hystyried yw:

a) Y cynigion yn natganiad polisi rhaglenni (SoPP) y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus hwnnw o ran y cyfraniad y bydd yr IPS yn ei wneud at gyflawni cylch gwaith unigol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus;
b) A yw'r cyfraniad arfaethedig hwnnw'n gallu bodloni anghenion a buddiannau amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd (neu gynulleidfa benodol yn achos ail neu IPS arall); a
c) Pa mor effeithiol ac effeithlon yw gwaith y Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus o fonitro ei berfformiad mewn perthynas â chyflawni'i gylch gwaith unigol.

4.35 Rydym yn nodi sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r ffactorau hyn isod.

[50] Adran 362AA(2)(b) a (7) o'r Ddeddf.

## Cynigion mewn SoPPs

4.36 Fel y trafodwyd uchod, mae'r Ddeddf yn symleiddio cylch gwaith cyffredinol y PSBs ac yn caniatáu iddynt ddefnyddio nifer o wasanaethau perthnasol i'w gyflawni. Yng ngoleuni'r hyblygrwydd newydd hwn, bydd gofyn i PSBs nodi yn eu SoPPs pa wasanaethau clyweledol y byddant yn eu defnyddio i gyflawni eu gorchwylion unigol, a'r cyfraniad maen nhw'n disgwyl i'r gwasanaethau hynny ei wneud. O dan y fframwaith newydd, bydd SoPPs yn adnodd pwysig i roi tryloywder i Ofcom a chynulleidfaoedd ynghylch sut mae'r PSBs yn cyflawni'r cylch gwaith cyffredinol. Rydym yn ymgynghori ar ganllawiau drafft ar gyfer SoPPS (canllawiau SoPP) yma.

4.37 Ar yr un pryd, bydd SoPPs yn chwarae rhan allweddol yn y drefn amlygrwydd ac argaeledd newydd. Fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf, bydd Ofcom yn ystyried yr wybodaeth y mae SoPP y PSB yn ei gynnwys ynghylch y cyfraniad y bydd ei IPS yn ei wneud at ei gylch gwaith unigol wrth asesu'r achos dros ddynodi.

4.38 Yn adran 5 rydym yn cyflwyno rhagor o fanylion am y broses i ddarparwr IPS wneud cais i ddynodi IPS am y tro cyntaf.

4.39 Y tu hwnt i unrhyw ddynodiad cychwynnol, bydd SoPPs yn parhau i roi cyfle i PSBs ddangos bod yr IPS yn parhau i gyflawni ei ofynion o ran dynodi ac felly fe ddylai ddal gafael ar ei fuddion. Mae canllawiau SoPP Ofcom yn nodi'r wybodaeth rydym yn awgrymu y dylai PSBs ei darparu yn eu SoPPs unigol ynghylch eu IPS at ddibenion dynodi a monitro parhaus.

## Anghenion y gynulleidfa

4.40 Wrth ystyried a oes modd i gyfraniad arfaethedig IPS ddiwallu anghenion a buddiannau amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, bydd Ofcom yn adolygu'r wybodaeth sydd yn SoPP y PSB perthnasol ynghylch sut y bydd yr IPS, fel un o'i wasanaethau perthnasol, yn diwallu anghenion ac yn bodloni buddiannau cynifer o wahanol gynulleidfaoedd ag sy'n ymarferol.[51]

4.41 Er mwyn dangos hyn, gallai SoPP y PSB gynnwys disgrifiad o'r cynulleidfaoedd y bydd yr IPS yn eu targedu a/neu esboniad o ran sut y bydd natur gyffredinol y rhaglenni ar yr IPS a'r pwnc y maent yn ymdrin ag ef yn darparu ar gyfer y cynulleidfaoedd hynny. Gallai astudiaethau achos fod yn ddefnyddiol, gan egluro sut y bwriedir i raglenni unigol wasanaethu cynulleidfaoedd penodol.

4.42 Yn achos ail neu IPS arall, bydd Ofcom yn ystyried yr wybodaeth sydd yn SoPP y PSB ynghylch sut mae'r PSB yn bwriadu defnyddio'r IPS hwnnw i ddiwallu anghenion a buddiannau cynulleidfa benodol. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth debyg i'r IPS cyntaf h.y. disgrifiad o'r gynulleidfa darged a/neu esboniad o ran sut y bydd y rhaglenni ar yr IPS yn darparu ar gyfer y gynulleidfa honno. Gallai dadansoddiad sy'n dangos ffigurau cyffredinol cynulleidfaoedd ar gyfer yr ail neu IPS arall a demograffeg y gynulleidfa fod yn ddefnyddiol yn hyn o beth.

## Monitro perfformiad

4.43 Bydd Ofcom yn adolygu'r wybodaeth a ddarperir gan PSBs yn eu SoPPs wrth ystyried effeithiolrwydd gwaith monitro perfformiad y PSBs. Yn anad dim, bydd Ofcom yn edrych ar

[51] Dyma un o ofynion cylch gwaith cyffredinol PSB (Adran 264(4) o'r Ddeddf).

ba mor effeithiol ac effeithlon yw gwaith y PSB o fonitro ei berfformiad o ran cyflawni ei gylch gwaith unigol. Ymysg pethau eraill, byddwn yn ystyried i ba raddau mae'r PSB wedi defnyddio ymchwil cynulleidfa ac wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid i fonitro ei berfformiad.

## Materion eraill

4.44 Efallai y bydd Ofcom yn edrych ar faterion eraill wrth ystyried a yw'n briodol dynodi IPS. Byddwn yn gwneud hynny fesul achos, gan ystyried ein dyletswyddau statudol perthnasol.

## Cynnig

4.45 Rydym yn cynnig defnyddio'r dulliau canlynol wrth benderfynu a yw'n briodol dynodi IPS:

a) Byddwn yn ystyried cynigion yng Nghynlluniau SoPP y PSB ynghylch y cyfraniad y bydd yr IPS yn ei wneud at gyflawni cylch gwaith unigol y PSB;
b) Byddwn yn ystyried gwybodaeth yng Nghynlluniau SoPP y PSB ynghylch sut y bydd yr IPS yn cael ei ddefnyddio i fodloni anghenion a buddiannau cynifer o gynulleidfaoedd â phosibl (neu gynulleidfa benodol, yn achos ail neu IPS arall); a
c) Byddwn yn adolygu gwybodaeth yn Adolygiadau SoPP y PSB i bennu pa mor effeithiol ac effeithlon yw gwaith y PSB o fonitro perfformiad yr IPS o ran cyflawni cylch gwaith unigol y PSB.
d) Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol yn ein barn ni, gan roi sylw i'n dyletswyddau statudol perthnasol.
e) Yn olaf, rydym hefyd yn cynnig yr egwyddorion cyffredinol canlynol ym mharagraffau A1.37 i 1.40 y Datganiad o Ddulliau:
   i) Byddwn yn egluro pam rydym wedi defnyddio dull penodol yn ein penderfyniadau dynodi a dirymu a sut mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r dulliau yn y Datganiad o Ddulliau.
   ii) Fodd bynnag, efallai y byddwn yn credu ei bod yn briodol gwyro oddi wrth y dulliau yn y Datganiad o Ddulliau. Os byddwn yn gwneud hyn, byddwn yn egluro pam.
   iii) Efallai y byddwn yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth yn adran 362AS y Ddeddf i lywio ein penderfyniadau dynodi a dirymu.
   iv) Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau dynodi a dirymu.

4.46 Mae'r dulliau hyn wedi'u nodi yn y Datganiad drafft o Ddulliau yn atodiad 1 ym mharagraff A1.27-33.

**Y cwestiwn ymgynghori**

Ch3. Ydych chi'n cytuno â'n dulliau arfaethedig ar gyfer penderfynu a yw'n briodol dynodi Gwasanaeth Rhaglenni Rhyngrwyd?

# 5. Prosesau arfaethedig ar gyfer gwneud cais am ddynodiad IPS a'i ddirymu

5.1 Er mwyn galluogi Ofcom i benderfynu a yw'r meini prawf dynodi yn cael eu bodloni, dylai darparwyr IPS sy'n dymuno gwneud cais i ddynodi eu IPS gyflwyno'r dogfennau a'r wybodaeth ganlynol i ni:

a) Y dogfennau SoPP diweddaraf gan y PSB perthnasol, sy'n cynnwys Cynllun SoPP gyda chynigion y PSB ar gyfer y flwyddyn ganlynol ynghyd â'i adolygiad o berfformiad ar gyfer y flwyddyn flaenorol (Adolygiad SoPP);
b) Unrhyw wybodaeth yn adran 4 uchod rydym wedi nodi sy'n berthnasol i'n hasesiad o Amodau 1 a 2 nad yw wedi'i chynnwys yn y dogfennau SoPP diweddaraf gan y PSB perthnasol;
c) Mewn amgylchiadau lle nad yw'r darparwr IPS yn PSB, cadarnhad bod y darparwr IPS yn mabwysiadu'r cynigion fel y nodir yng Nghynllun SoPP y PSB perthnasol at ddibenion darparu'r IPS;
d) Gwybodaeth ynglŷn â'r darparwr IPS, gan gynnwys cadarnhad bod gan y darparwr IPS 'reolaeth gyffredinol' dros yr IPS;
e) Disgrifiad o natur yr IPS, gan gynnwys y gwasanaethau sydd ynddo – er enghraifft, a yw'r IPS yn cynnwys un ODPS, mwy nag un ODPS, neu gyfuniad o ODPS a gwasanaethau eraill.
f) Mewn amgylchiadau lle nad oes unrhyw un o'r gwasanaethau yn yr IPS yn cael eu rheoli[52] gan ddarparwr yr IPS, gwybodaeth am yr unigolyn sy'n rheoli'r gwasanaethau hyn; ac
g) Unrhyw wybodaeth berthnasol arall yr hoffai'r darparwr IPS i Ofcom ei hystyried wrth fynd ati i asesu p'un a ddylid dynodi'r IPS ai peidio.

5.2 Gall Ofcom hefyd ddefnyddio ei bwerau casglu gwybodaeth[53] i fynnu gwybodaeth ychwanegol gan y PSBs at ddibenion cyflawni ei swyddogaethau dynodi. Yn benodol, os bydd Ofcom yn gofyn am eglurhad neu ragor o fanylion gan ymgeiswyr am yr wybodaeth a ddarperir yn y Cynllun SoPP, y darparwr IPS neu unrhyw wybodaeth ychwanegol a nodir ym mharagraff 5.1 uchod, efallai y byddwn yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth i gael hynny.

5.3 Bydd y broses o baratoi'r Cynllun SoPP a'r Adolygiad SoPP yn amrywio yn dibynnu ar ba bryd y bydd darparwr IPS yn dymuno gwneud cais i ddynodi ei IPS. Yn yr adrannau isod, rydym yn disgrifio'r broses a gynigiwn ar gyfer y darparwyr IPS sy'n dymuno cyflwyno ceisiadau i ddynodi eu IPS yn 2025, hynny yw cyn i'r drefn SoPP newydd ddod i rym, a'r broses a fydd ar waith ar ôl hynny.

---

[52] Pan gyfeirir at reolaeth yn yr amgylchiadau hyn, rydym yn golygu rheolaeth olygyddol fel y diffinnir yn adran 368A(4) o'r Ddeddf.
[53] Adran 362AS o'r Ddeddf.

## Ceisiadau cynnar yn 2025

5.4 Efallai y bydd darparwyr IPS yn dymuno cyflwyno ceisiadau i ddynodi eu IPS cyn i'r drefn amlygrwydd newydd ddechrau.[54] Os felly, rydym yn cynnig y dylai unrhyw ddarparwr IPS sy'n dymuno gwneud cais yn 2025 i ddynodi ei IPS gyflwyno'r dogfennau canlynol:

a) Cynllun SoPP drafft, sy'n cynnwys cynigion y PSB perthnasol ar gyfer 2026;
b) Yr wybodaeth a nodir ym mharagraff 5.1 (b) i (g) uchod; a
c) Gwybodaeth ynghylch sut mae'r PSB yn bwriadu sicrhau bod perfformiad ei gynigion yn ei Gynllun SoPP drafft yn cael eu monitro'n effeithlon ac yn effeithiol er mwyn cyflawni ei gylch gwaith unigol. Rydym yn cydnabod na fydd modd cyflwyno Adolygiad SoPP llawn ar hyn o bryd.


5.5 Dylid paratoi'r Cynllun SoPP drafft ar ôl cyhoeddi'r canllawiau SoPP newydd. Gobeithiwn gyhoeddi'r canllawiau terfynol yn ystod yr haf 2025. Felly, rydym yn disgwyl i ddarparwyr IPS sy'n dymuno gwneud cais yn ystod 2025 i ddynodi eu IPS gyflwyno eu ceisiadau ar sail y canllawiau SoPP terfynol. Byddem yn disgwyl i'r ceisiadau hyn ddod i law erbyn yr hydref 2025, ond byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion ynghylch amseriad y cyfnod ymgeisio cynnar hwn pan fyddwn yn paratoi ein Datganiad o Ddulliau terfynol yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

5.6 Pan fyddwn wedi cael yr wybodaeth hon, ac wedi'i hystyried, byddwn yn ymgynghori ynghylch ein penderfyniadau dynodi arfaethedig. Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cael ei gynnal ddiwedd 2025. Ar ôl i'r drefn newydd ar gyfer SoPPs ddod i rym yn 2026, dylai'r PSBs gyhoeddi fersiwn derfynol o'u Cynllun SoPP ar gyfer 2026 cyn gynted â phosibl ar ôl hynny, ac fe ddylai darparwyr IPS roi gwybod i ni os oes unrhyw beth wedi newid ers cyflwyno'r Cynllun SoPP drafft blaenorol.

5.7 Er mwyn sicrhau tryloywder i randdeiliaid, rydym yn cynnig cyhoeddi Cynlluniau SoPP drafft a'r wybodaeth ym mharagraffau 5.4 (b) i (c) uchod a gyflwynir fel rhan o'r broses ymgeisio gynnar hon.[55] Byddwn hefyd yn ymgynghori ar ein penderfyniadau dynodi arfaethedig.

5.8 Ar ôl ymgynghori, ac ar ôl i drwyddedau PSB gael eu hamrywio i ystyried y newidiadau a wnaed gan y Ddeddf Cyfryngau, dylai'r PSBs fynd ati i gyhoeddi fersiwn derfynol o'u Cynllun SoPP.

5.9 Mae'r diagram isod yn crynhoi'r broses arfaethedig ar gyfer ceisiadau a gyflwynwyd yn 2025 ynghyd ag amserlen fras. Bydd ceisiadau a gyflwynir ar ôl yr hydref 2025 yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgeisio a'r amserlenni arferol a esbonnir isod.




---

[54] Nid yw adrannau 362AJ, 362AK a 362AO o'r Ddeddf, sy'n cynnwys y gofynion i ddarparwyr DIPS "gynnig" eu DIPS i ddarparwyr RTSS sy'n gorfod "cario" y DIPS a sicrhau eu bod ar gael ac yn amlwg ar y RTSS, wedi'u rhoi ar waith eto.

[55] Bydd cyfle i ddarparwyr IPS nodi unrhyw wybodaeth gyfrinachol adeg cyflwyno'r cais.

# Ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno ar ôl 2025

5.10 Ar ôl i'r cyfnod ar gyfer ceisiadau cynnar yn 2025 ddod i ben, rydym yn cynnig dau 'gyfnod' rheolaidd yn ystod y flwyddyn pan fydd modd cyflwyno ceisiadau i ddynodi IPS i Ofcom. Gan ddechrau o fis Gorffennaf 2026, bydd y cyfnodau hyn ym mis Ionawr ac ym mis Gorffennaf bob blwyddyn. Dyma'r misoedd ar ôl y dyddiadau cau arferol ar gyfer cyhoeddi'r Cynllun SoPP a'r Adolygiad SoPP yn y drefn honno.

5.11 Dylai darparwr IPS sy'n dymuno gwneud cais i ddynodi ei IPS o fis Gorffennaf 2026 ymlaen gyflwyno'r dogfennau canlynol:

a) Cynllun SoPP ac Adolygiad SoPP diweddaraf y PSB perthnasol.[56]
b) Yr wybodaeth a nodir ym mharagraff 5.1 (b) i (g) uchod.

5.12 Er mwyn sicrhau tryloywder i randdeiliaid byddwn yn ymgynghori ar ein penderfyniadau dynodi arfaethedig, ac ar ôl ymgynghori bydd y penderfyniadau terfynol ynghylch dynodi yn cael eu cyhoeddi.

**Y cwestiwn ymgynghori**

C4. Ydych chi'n cytuno â'n proses arfaethedig i Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus wneud cais i ddynodi Gwasanaeth Rhaglenni Rhyngrwyd?

# Dulliau arfaethedig ar gyfer dirymu IPS

5.13 Gall Ofcom benderfynu dirymu dynodiad IPS os yw'n ystyried bod sail resymol dros gredu nad yw'r IPS yn parhau i fodloni'r meini prawf dynodi.[57] Cyn y gellir gwneud penderfyniad o'r fath, mae'n rhaid i Ofcom yn gyntaf roi gwybod i ddarparwr yr IPS a rhoi cyfle iddo gyflwyno sylwadau. Rhaid i Ofcom hefyd ddirymu dynodiad IPS os yw'r darparwr IPS yn gofyn iddo wneud hynny.[58]

5.14 Mae'r Ddeddf yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i Ofcom ddirymu dynodiad IPS. Yr amodau hyn yw (i) nad yw'r IPS dynodedig yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at gylch gwaith y PSB trwyddedig neu S4C; (ii) nid yw'n hawdd canfod y cynnwys PSR yn yr IPS neu nid yw'n cael ei hyrwyddo gan y gwasanaeth; ac (iii) ni fyddai'n briodol i Ofcom ddynodi'r IPS. Wrth benderfynu a yw'r meini prawf hyn yn cael eu bodloni, bydd Ofcom yn ystyried y materion a'r dystiolaeth a drafodwyd yn adran 4.

5.15 Byddem yn disgwyl i'r broses o ddirymu dynodiad gael ei sbarduno pan fydd PSB yn cynnig neu'n gwneud newidiadau i'w IPS, sy'n golygu nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer dynodi mwyach. Enghraifft o senario o'r fath fyddai petaem o'r farn nad oedd gan PSB ddull effeithiol ac effeithlon o fonitro ei berfformiad o ran cyflawni ei gylch gwaith unigol i'r graddau nad oedd bellach yn briodol dynodi'r gwasanaeth.

5.16 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai darparwyr IPS ddymuno gwneud mân newidiadau i'w IPS ar ôl ei ddynodi. Yn achos newidiadau o'r fath (er enghraifft, newid i enw neu frand

[56] Ni fydd yr adolygiadau perfformiad cyntaf o dan y drefn newydd yn cael eu cyhoeddi tan fis Mehefin 2027. Felly, rydym yn disgwyl i PSBs sy'n gwneud cais ym mis Gorffennaf 2026 ac ym mis Ionawr 2027 gyflwyno gwybodaeth am eu cynlluniau i sicrhau bod eu perfformiad yn cael ei fonitro'n effeithlon ac yn effeithiol, fel y disgrifir ym mharagraff 5.6(c) uchod.
[57] Adran 362AB(2) o'r Ddeddf.
[58] Adran 362AB(7) o'r Ddeddf.

yr IPS) ni fyddem yn disgwyl i hyn sbarduno’r broses ar gyfer dirymu dynodiad, oni bai ei fod yn golygu nad oedd y meini prawf dynodi’n cael eu bodloni mwyach.

5.17 Mae gan ddarparwyr DIPS ddyletswyddau parhaus o dan y Ddeddf i sicrhau bod Amod 1 ac Amod 2, fel y trafodwyd uchod, yn parhau i gael eu bodloni.[59] Yn ogystal â’r gallu i ddirymu dynodiad, mae gan Ofcom bwerau gorfodi gan gynnwys y pŵer i bennu’r camau y mae’n rhaid i ddarparwyr DIPS eu cymryd er mwyn unioni’r methiant i gydymffurfio â’r amodau.[60]

## Cynnig

5.18 Rydym yn cynnig, wrth benderfynu a yw’r meini prawf hyn ar gyfer dirymu dynodiad yn cael eu bodloni, y bydd Ofcom yn ystyried y materion a’r dystiolaeth a drafodwyd yn adran 4 mewn perthynas â’r meini prawf dynodi.

**Y cwestiwn ymgynghori**

C5. Ydych chi’n cytuno â’n dulliau arfaethedig ar gyfer dirymu dynodiad IPS?

# Gwybodaeth IPS mewn SoPPs y PSBs

5.19 Mae gan SoPPs rôl bwysig o fewn proses dynodi IPS. Fel yr eglurwyd uchod, wrth asesu a ddylid dynodi IPS, mae’n rhaid i ni ystyried y cynigion yng Nghynllun SoPP y PSB o ran y cyfraniad y bydd yr IPS yn ei wneud tuag at gyflawni ei gylch gwaith unigol a p’un a oes modd i’r cyfraniad hwnnw fodloni anghenion a buddiannau ystod eang o gynulleidfaoedd. Yn ogystal â hynny, mae Adolygiadau SoPP yn berthnasol gan fod yn rhaid i ni hefyd ystyried pa mor effeithiol ac effeithlon yw gwaith y PSB o fonitro ei berfformiad mewn perthynas â chyflawni’i gylch gwaith unigol.

5.20 Dylid cynnwys yr wybodaeth uchod yng Nghynllun SoPP y PSB yn unol â’n canllawiau SoPP drafft. Er hwylustod a thryloywder, rydym o’r farn, pan fyddwn yn nodi gwybodaeth benodol sy’n berthnasol i’n hasesiad o Amod 1 ac Amod 2, y gallai hefyd gael ei nodi gan y PSB perthnasol yn adran yr IPS yn eu Cynllun SoPP.

5.21 Yng nghanllawiau SoPP rydym wedi nodi’r wybodaeth a gynigiwn y gallai’r PSBs ei chynnwys yn eu Cynlluniau SoPP at ddibenion gwneud penderfyniad ynghylch Amod 1 ac Amod 2. Fel y nodwyd ym mharagraff 5.1(b) uchod, i’r graddau bod unrhyw wybodaeth yn adran 4 sydd wedi’i nodi fel rhywbeth sy'n berthnasol i’n hasesiad o Amodau 1 a 2 ddim yn cael ei chynnwys yn y Cynllun SoPP diweddaraf gan y PSB perthnasol, dylai darparwyr IPS gyflwyno’r wybodaeth hon wrth wneud ceisiadau am ddynodiad.

[59] Adran 362AN o’r Ddeddf.

[60] Adran 362AZ(1)(a) a (4) o’r Ddeddf.

# A1. Datganiad drafft o ddulliau ar gyfer dynodi IPS

## Gwybodaeth am y ddogfen hon

A1.1 Y ddogfen hon yw'r Datganiad o Ddulliau i'w defnyddio gan Ofcom wrth arfer ei swyddogaethau dynodi o dan y drefn amlygrwydd yn Rhan 3A o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf). Mae adran 364AC y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom lunio'r datganiad hwn.

A1.2 O dan y drefn newydd, rôl Ofcom yw dynodi'r apiau teledu, y cyfeirir atynt fel 'gwasanaeth rhaglenni rhyngrwyd' (IPS), a ddarperir gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig (PSBs) – hynny yw, trwyddedeion Channel 3, C4C a Channel 5 – ac S4C, yn ogystal â'r bobl sy'n gysylltiedig â nhw. Dim ond os: i) bydd Ofcom yn penderfynu bod amodau penodol yn cael eu bodloni; ac ii) bod Ofcom o'r farn y byddai'n briodol gwneud hynny, y caiff Ofcom ddynodi IPS o'r fath.

A1.3 Mae'r datganiad hwn yn nodi'r dulliau y bydd Ofcom yn eu defnyddio wrth benderfynu:

a) a yw'r amodau dynodi ar gyfer IPS wedi cael eu bodloni;
b) a yw'n briodol dynodi IPS; ac
c) a yw IPS dynodedig bellach yn methu â diwallu'r amodau dynodi, neu nad yw bellach yn briodol dynodi IPS, fel bod Ofcom yn cynnig dirymu dynodiad yr IPS hwnnw.

## Fframwaith deddfwriaethol

A1.4 Mae'r adran hon yn crynhoi'r fframwaith cyfreithiol perthnasol sy'n sail i swyddogaethau dynodi Ofcom o dan y drefn amlygrwydd. Mae trosolwg manwl o'r fframwaith cyfreithiol yn atodiad 2.

A1.5 Nod gyffredinol y drefn yn Rhan 3A y Ddeddf yw sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael, yn amlwg ac yn hygyrch ar lwyfannau teledu cysylltiedig - cyfeirir atynt fel 'gwasanaethau dethol teledu' (TSS). Er mwyn cyflawni hyn, bydd yn rhaid i ddarparwyr IPS dynodedig sicrhau bod eu gwasanaeth ar gael i TSS dynodedig (cyfeirir atynt fel TSS neu RTSS a reoleiddir) a bydd yn rhaid i ddarparwyr RTSS sicrhau bod IPS dynodedig PSBs, a'u cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, ar gael ac yn amlwg ar eu RTSS.

A1.6 Mae'r Ddeddf yn diffinio IPS fel gwasanaeth sy'n cynnwys: (i) gwasanaeth rhaglenni ar-alw (ODPS); neu (ii) gwasanaeth rhaglenni ar-alw a gwasanaethau eraill (e.e. gwasanaethau rhaglenni teledu sy'n cael eu ffrydio'n fyw).[61] Darparwr IPS yw'r unigolyn sydd â rheolaeth gyffredinol dros y gwasanaeth.[62]

A1.7 Dim ond os yw'r canlynol yn wir y gall Ofcom ddynodi IPS a ddarperir gan PSB trwyddedig neu S4C, neu unigolyn sy'n gysylltiedig â nhw (er mwyn bod yn gryno, cyfeirir ato fel 'IPS a ddarperir gan PSB' yn y datganiad hwn):

---

[61] Adrannau 362AA(10) a (11) o'r Ddeddf. Fel y nodwyd yn adran 11(c)(i) o'r Ddeddf, gall yr ODPS fod yn ODPS nad ydynt yn rhai'r DU.
[62] Adran 362AZ12(2) o'r Ddeddf.

a) Mae'r IPS yn gwneud cyfraniad arwyddocaol, neu'n gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol, at gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol y PSB trwyddedig neu S4C (Amod 1);
b) Mae rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn yr IPS sy'n cyfrannu at gylch gwaith unigol y PSBs trwyddedig neu S4C (y cyfeirir atynt yn y Ddeddf fel "cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus" (cynnwys PSR)) yn hawdd i'w darganfod ac yn cael eu hyrwyddo gan y gwasanaeth (Amod 2); a
c) Mae Ofcom yn credu ei bod yn briodol dynodi'r IPS.

A1.8 Yn ychwanegol at ei rôl yn dynodi IPS sylfaenol PSB, caiff Ofcom ddynodi ail neu IPS arall a ddarperir gan y PSB hwnnw (neu berson sy'n gysylltiedig â'r PSB hwnnw) os yw Ofcom o'r farn, yn ogystal â bodloni'r meini prawf dynodi a ddisgrifir uchod, bod y cyfraniad arfaethedig y byddai'r ail neu IPS arall yn ei wneud tuag at gyflawni 'cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol' (cylch gwaith unigol) y PSB yn gallu bodloni anghenion a buddiannau cynulleidfa benodol.

A1.9 Ar ôl eu dynodi, mae'n rhaid i ddarparwyr DIPS ymgymryd â dyletswyddau parhaus i sicrhau bod yr amodau dynodi ym mharagraff A1.7(a) a (b) uchod yn dal i gael eu bodloni.[63] Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau gorfodi i Ofcom,[64] gan gynnwys y gallu i roi cosbau pan fydd darparwyr DIPS yn methu â chydymffurfio â'r dyletswyddau hyn,[65] ac i nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd i unioni methiannau o'r fath.[66]

A1.10 Gall Ofcom hefyd benderfynu dirymu dynodiad IPS os yw'n ystyried bod sail resymol dros gredu nad yw'r IPS yn parhau i fodloni'r meini prawf dynodi.[67] Cyn y gellir gwneud penderfyniad o'r fath, mae'n rhaid i Ofcom yn gyntaf roi gwybod i ddarparwr yr IPS a rhoi cyfle iddo gyflwyno sylwadau.

A1.11 Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau casglu gwybodaeth i Ofcom y gellir eu defnyddio i gael gafael ar wybodaeth sy'n angenrheidiol yn ein barn ni er mwyn hysbysu ein penderfyniadau i wneud neu ddirymu dynodiad ac i asesu cydymffurfedd â'r dyletswyddau parhaus i sicrhau bod yr amodau dynodi'n dal i gael eu bodloni.[68] Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i Ofcom fynnu bod y sawl sy'n derbyn y cais yn cael neu'n cynhyrchu gwybodaeth.[69]

A1.12 Rhaid i Ofcom gyhoeddi datganiad am y dulliau y bydd yn eu defnyddio wrth benderfynu: (i) a yw'r meini prawf dynodi ar gyfer IPS yn cael eu bodloni; ac (ii) a yw IPS dynodedig bellach yn methu â diwallu'r meini prawf dynodi, fel bod Ofcom yn cynnig dirymu dynodiad yr IPS hwnnw.[70] Y ddogfen hon yw'r datganiad hwnnw.

A1.13 Gall Ofcom ddiwygio neu ddisodli'r datganiad hwn.[71]

---

[63] Adran 362AN o'r Ddeddf.
[64] Adrannau 362AZ i 362AZ4 o'r Ddeddf
[65] Adrannau 362AZ3 a 362AZ4 o'r Ddeddf.
[66] Adran 362AZ(4) o'r Ddeddf.
[67] Adran 362AB(2) o'r Ddeddf.
[68] Adran 362AS o'r Ddeddf.
[69] Adran 362AS(3) a (4) o'r Ddeddf.
[70] Adran 362AC(1) o'r Ddeddf.
[71] Adran 362AC(2) o'r Ddeddf.

# Dulliau dynodi Ofcom

## Darparwyr IPS ac unigolion cysylltiedig

A1.14 Cyn penderfynu a yw'r amodau dynodi yn cael eu bodloni ac a fyddai'n briodol dynodi IPS a ddarperir gan PSB, mae'n rhaid i Ofcom yn gyntaf fod yn fodlon mai'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef – hynny yw, un o'r PSBs trwyddedig, S4C, neu unigolyn sy'n gysylltiedig ag un ohonynt – yw darparwr yr IPS dan sylw.

A1.15 Mae'r Ddeddf yn glir mai'r unig un all fod yn ddarparwr IPS yw'r unigolyn sydd â rheolaeth gyffredinol dros yr IPS. Mae hyn yn golygu mai dim ond os oes ganddynt reolaeth gyffredinol dros yr IPS y bydd PSB trwyddedig, S4C, neu unigolyn sy'n gysylltiedig â nhw yn cael ei drin fel darparwr IPS. Mae 'rheolaeth gyffredinol' yn golygu, yn achos IPS lle mae'r rhaglenni wedi'u cynnwys mewn un ODPS, yr unigolyn sydd â 'chyfrifoldeb golygyddol'[72] dros yr ODPS. Ar gyfer unrhyw IPS arall, mae'n golygu'r unigolyn sydd â rheolaeth gyffredinol dros ba ODPS a gwasanaethau eraill sy'n cael eu cynnwys ynddo.[73]

A1.16 Yn achos cais am ddynodiad lle mae'r darparwr yn unigolyn sy'n gysylltiedig â PSB trwyddedig neu S4C, mae'n rhaid i Ofcom hefyd fod yn fodlon bod yr unigolyn dan sylw'n 'gysylltiedig' â'r PSB trwyddedig neu S4C o fewn yr ystyr a nodir yn y Ddeddf. Yn achos unigolyn sy'n gysylltiedig â C4C ac S4C, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r unigolyn cysylltiedig gael ei reoli gan C4C neu S4C (fel sy'n berthnasol). Yn achos unigolyn sy'n gysylltiedig â darparwr gwasanaeth Channel 3 neu Channel 5, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r unigolyn cysylltiedig a'r PSB perthnasol gael eu rheoli gan yr un unigolyn. Mae gan 'reolaeth' yng nghyd-destun unigolion cysylltiedig yr un ystyr ag yn Neddf Darlledu 1990 h.y. rheolaeth buddiant mwyafrifol, rheolaeth de facto neu drefniant rheoli.[74] Wrth ystyried a yw darparwr gwasanaeth yn gysylltiedig â'r PSB trwyddedig neu S4C ac unrhyw faterion perthnasol, byddwn yn ystyried ein canllawiau cyhoeddedig ar reolaeth.[75]

## Amodau dynodi

A1.17 Mae Adrannau 362AA(3) a (4) o'r Ddeddf yn nodi dau amod y mae'n rhaid i IPS eu bodloni er mwyn i Ofcom allu ei ddynodi. Yn ogystal â'r amodau hyn, mae'n rhaid i Ofcom hefyd ystyried ei bod yn briodol dynodi'r IPS.[76]

### Amod 1: A yw'r IPS yn gwneud cyfraniad sylweddol, neu'n gallu gwneud cyfraniad sylweddol, at gylch gwaith unigol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig neu S4C?

A1.18 Wrth benderfynu a yw'r amod hwn yn cael ei fodloni, bydd Ofcom yn ystyried arwyddocâd yng nghyd-destun cylch gwaith unigol pob PSB. Byddwn yn rhoi sylw penodol i ba raddau y bydd y cynnwys ar yr holl wasanaethau clyweledol perthnasol (gwasanaethau perthnasol)[77]

---

[72] Diffinnir 'cyfrifoldeb golygyddol' yn Adran 368A(4) o'r Ddeddf.
[73] Adran 362AZ12(4) o'r Ddeddf.
[74] Rhan 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Darlledu 1990.
[75] Canllawiau ar y diffiniad o reoli cwmnïau cyfryngau
[76] Adran 362AA(2)(b) o'r Ddeddf.
[77] Mae 'gwasanaethau clyweledol perthnasol' yn cael eu diffinio yn adran 264(11) o'r Ddeddf. Mae PSBs trwyddedig ac S4C yn gallu defnyddio gwasanaethau clyweledol perthnasol ochr yn ochr â'u prif sianel deledu i gyfrannu at gyflawni eu gorchwylion unigol (er mwyn cyflawni eu gorchwylion unigol, mae'n rhaid i'r PSBs trwyddedig ac S4C hefyd wneud "cyfraniad digonol" at y rhwymedigaeth gyfunol ar bob PSB i gyflawni'r cylch

y mae'r PSB wedi nodi yn ei ddatganiad polisi rhaglenni (SoPP) (ac eithrio'r IPS) yn cael ei gynnwys yn yr IPS. Cyfeirir at raglenni sydd wedi'u cynnwys mewn IPS ac sy'n cyfrannu at gylch gwaith unigol PSB trwyddedig neu S4C fel cynnwys PSR. Gall yr IPS hefyd gynnig cynnwys nad yw PSB yn bwriadu ei ddefnyddio i gyflawni ei gylch gwaith unigol (rydym yn cyfeirio at hyn fel 'cynnwys nad yw'n PSR'), sy'n cynnwys y cynnwys y telir amdano. Fodd bynnag, ni fydd Ofcom yn ystyried cynnwys nad yw'n PSR wrth asesu a oes modd i'r IPS wneud cyfraniad arwyddocaol at gylch gwaith unigol y PSB trwyddedig neu S4C.

A1.19 Mae'r Ddeddf yn caniatáu i PSBs gyflawni eu gorchwylion drwy sicrhau bod cynnwys ar gael ar wasanaethau sy'n rhad ac am ddim, ac sydd naill ai: (i) yn cael eu darparu gan PSBs; neu (ii) yn cael eu darparu gan drydydd partïon o dan drefniadau rhwng y PSB a'r trydydd parti hwnnw.[78] Er mwyn bodloni Amod 1, rydym o'r farn y dylai darparwr IPS yn gyffredinol gynnwys ar ei IPS yr holl gynnwys ar yr holl wasanaethau perthnasol y mae'r PSB wedi'i nodi yn ei SoPP (ac eithrio'r IPS).

A1.20 At ddibenion penderfyniad Ofcom ynghylch Amod 1, dylai darparwyr IPS gadarnhau'n bendant a fydd yr IPS yn cynnwys yr holl gynnwys ar yr holl wasanaethau perthnasol y mae'r PSB wedi'i nodi yn ei SoPP (ac eithrio'r IPS). Os na fydd yr IPS yn darparu'r holl gynnwys hwn, dylai darparwr yr IPS egluro hyn.

A1.21 Wrth benderfynu a yw Amod 1 yn cael ei fodloni mewn perthynas â cheisiadau dynodi ail neu IPS arall sydd wedi'u hanelu at ddiwallu anghenion a buddiannau cynulleidfa benodol, dylai darparwyr IPS gadarnhau a fydd yr IPS yn cynnig yr holl gynnwys ar y gwasanaethau perthnasol y mae'r PSB wedi'i nodi yn ei SoPP sydd wedi'i fwriadu ar gyfer y gynulleidfa benodol honno. Os na fydd yr ail neu IPS arall yn darparu'r holl gynnwys hwn, dylai darparwr yr IPS egluro hyn.

### Amod 2: A yw'r cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'i gynnwys yn y gwasanaeth yn hawdd i'w ddarganfod ac yn cael ei hyrwyddo gan yr IPS?

A1.22 Yn y Ddeddf, diffinnir cynnwys PSR fel deunydd sydd wedi'i gynnwys yn yr IPS sy'n cyfrannu at gyflawni gorchwylion unigol ar gyfer PSBs trwyddedig ac S4C.[79] Fel y nodwyd uchod, gall yr IPS hefyd gynnig cynnwys nad yw'n cyfrannu at gyflawni'r gorchwylion unigol hyn (cynnwys nad yw'n PSR).

A1.23 Wrth benderfynu a yw Amod 2 yn cael ei fodloni, bydd Ofcom yn ystyried gwybodaeth a ddarperir gan ddarparwyr IPS sy'n egluro: (i) sut y bydd cynnwys PSR ar gael yn rhwydd ar yr IPS; ac (ii) sut y bydd cynnwys PSR yn cael ei hyrwyddo gan yr IPS. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth ynghylch:

a) Sut y bydd cynnwys PSR yn cael ei leoli yn y mannau gyda lefelau traffig uchel ar yr hafan yn ogystal â nodweddion a mannau eraill â lefelau traffig uchel[80] yr IPS fel bod

---

gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer teledu yn y DU (Adrannau 265(2)(b) a (3) o'r Ddeddf (ar gyfer y PSBs trwyddedig); Adran 204A o'r Ddeddf (ar gyfer S4C), nad ydynt mewn grym eto).

[78] Adran 264(13) o'r Ddeddf.

[79] Adran 362AA(12) o'r Ddeddf.

[80] Mae 'man traffig uchel' yn cyfeirio at fan yn yr IPS sy'n cael ei gweld a/neu ei defnyddio gan nifer sylweddol o bobl pan fyddant yn defnyddio'r IPS. Mae enghreifftiau o nodweddion a mannau gyda lefelau traffig uchel yn cynnwys: 'baner arwr' (h.y. y slot mwyaf ac amlycaf) yr hafan; rheiliau thema ar yr hafan; argymhellion yn y swyddogaeth chwilio; tabiau categorïau wedi'u curadu; rhaglenni awto-chwarae; argymhellion ar ddechrau neu ddiwedd rhaglenni; ac ymgyrchoedd ar thema.

sylw cynulleidfaoedd at y cynnwys hwn yn debygol o gynyddu o'i gymharu â chynnwys nad yw'n PSR; a

b) Sut y bydd ei ddull o guradu (wedi'i arwain yn olygyddol a/neu algorithmig) yn helpu i hyrwyddo a sicrhau bod modd dod o hyd i gynnwys PSR yn rhwydd.

A1.24 Er mwyn bodloni Amod 2, rydym yn credu bod yn rhaid i ddarparwyr IPS hyrwyddo a sicrhau ei bod yn hawdd canfod deunydd yn y mannau traffig uchel ar yr hafan yn ogystal â mannau traffig uchel eraill a nodweddion yr IPS:

a) amrywiaeth eang o gynnwys PSR sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu; a
b) chynnwys newyddion a materion cyfoes.

A1.25 Yn achos ail neu IPS arall, bydd Ofcom yn ystyried yr wybodaeth a gyflwynir gan ddarparwyr IPS yn unol â pharagraff A1.23 uchod, ynghyd â p'un a yw'r IPS yn hyrwyddo ac yn sicrhau bod y cynnwys a ddisgrifir ym mharagraff A1.24 uchod yn hawdd ei ganfod. Os bydd darparwr IPS o'r farn, oherwydd natur yr ail neu IPS arall a'i gynulleidfa benodol arfaethedig, nad yw'n bosibl hyrwyddo na sicrhau bod y cynnwys a ddisgrifir ym mharagraff A1.24 yn hawdd ei ganfod, dylai'r darparwr IPS egluro hyn.

A1.26 Mewn achosion lle mae darparwr IPS yn bwriadu cynnig cynnwys nad yw'n PSR ar yr IPS, dylai egluro sut y bydd yn gwneud yn siŵr nad yw hynny'n cael effaith niweidiol ar hyrwyddo a'r gallu i ganfod cynnwys PSR. Rydym yn ystyried y dylai'r mannau gyda lefelau traffig uchel ar yr hafan yn ogystal â nodweddion a mannau eraill â lefelau traffig uchel yr IPS (gweler troednodyn 81) ddarparu cynnwys PSR yn bennaf er mwyn bodloni Amod 2.

## A yw'n briodol dynodi'r IPS?

A1.27 Wrth ystyried a yw'n briodol dynodi IPS, mae'r Ddeddf yn nodi materion penodol y mae'n rhaid i Ofcom eu hystyried. Dyma nhw:

- Y cynigion yn SoPP y PSB hwnnw o ran y cyfraniad y bydd yr IPS yn ei wneud tuag at gyflawni cylch gwaith unigol y PSB;
- A yw'r cyfraniad arfaethedig hwnnw'n gallu bodloni anghenion a buddiannau amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd (neu gynulleidfa benodol yn achos ail neu IPS arall); a
- Pa mor effeithiol ac effeithlon yw gwaith y PSB o fonitro ei berfformiad mewn perthynas â chyflawni cylch gwaith unigol y PSB.

A1.28 Nodir isod yr hyn y bydd Ofcom yn ei ystyried mewn perthynas â phob un o'r materion hyn.

### Cynigion mewn SoPPs

A1.29 Fel y nodir yng nghanllawiau SoPP Ofcom, dylai SoPP y PSB gynnwys gwybodaeth am IPS y PSB hwnnw a'r cyfraniad y bydd yn ei wneud at gyflawni cylch gwaith unigol y PSB. Bydd Ofcom yn rhoi ystyriaeth i'r cynigion hyn wrth ystyried a fyddai'n briodol dynodi IPS.

### Anghenion y gynulleidfa

A1.30 Wrth ystyried a oes modd i gyfraniad arfaethedig IPS ddiwallu anghenion a buddiannau amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, bydd Ofcom yn adolygu'r wybodaeth sydd yn SoPP y PSB ynghylch sut y bydd y PSB yn defnyddio ei IPS i ddiwallu anghenion a buddiannau cynifer o wahanol gynulleidfaoedd â phosibl. Mae canllawiau SoPP yn nodi'r wybodaeth y gallai PSBs ei darparu er mwyn dangos hyn, a bydd Ofcom yn ystyried yr wybodaeth hon at ddibenion ystyried a fyddai'n briodol dynodi IPS ai peidio.

A1.31 Yn achos ail neu IPS arall, bydd Ofcom yn ystyried yr wybodaeth sydd yn SoPP y PSB sy'n dangos sut y bydd y PSB yn defnyddio ail neu IPS arall i ddiwallu anghenion a buddiannau cynulleidfa benodol. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am bwy yw'r gynulleidfa darged, yn ogystal â strategaeth y PSB ar gyfer sicrhau y bydd y rhaglenni ar yr ail neu'r IPS arall yn diwallu anghenion ac yn bodloni buddiannau'r gynulleidfa honno, gan ystyried natur y rhaglenni a'r pynciau y maent yn ymdrin â nhw**.** Gallai esboniad o'r fath gael ei ategu gan ddadansoddiad sy'n dangos ffigurau cynulleidfa ar gyfer y gwasanaeth perthnasol yn gyffredinol a demograffeg y gynulleidfa.

### Monitro perfformiad

A1.32 Wrth ystyried effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwaith monitro perfformiad PSB mewn perthynas â chyflawni ei gylch gwaith unigol, bydd Ofcom yn adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd gan PSBs yn eu Cynllun SoPP ac Adolygiad SoPP. Yn anad dim, bydd Ofcom yn edrych ar yr Adolygiad SoPP ac asesiad y PSB o sut mae wedi cyflawni ei gylch gwaith unigol ar draws pob un o'i wasanaethau perthnasol (sy'n cynnwys yr IPS), ac, wrth wneud hynny, sut mae'r PSB wedi gwneud cyfraniad digonol at gylch gwaith cyffredinol y PSB. Efallai y byddwn hefyd yn ystyried unrhyw asesiad ansoddol a / neu feintiol o berfformiad yr IPS a ddarperir gan y PSB.

#### Materion eraill

A1.33 Yn ogystal â'r uchod, bydd Ofcom yn ystyried unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol yn ei farn ef wrth ystyried a yw'n briodol dynodi IPS,[81] gan roi sylw i'n dyletswyddau statudol perthnasol.

## Dulliau dirymu dynodiad Ofcom

A1.34 Gall Ofcom benderfynu dirymu dynodiad IPS, yn absenoldeb cais i wneud hynny gan ddarparwr yr IPS, ar y sail bod Ofcom yn ystyried bod sail resymol dros gredu bod un neu fwy o'r meini prawf yn adran 362AB(2) o'r Ddeddf yn cael eu bodloni. Cyn y gellir gwneud penderfyniad o'r fath, mae'n rhaid i Ofcom yn gyntaf roi gwybod i ddarparwr yr IPS a rhoi cyfle iddo gyflwyno sylwadau.

A1.35 Dyma'r meini prawf yn adran 362AB(2):

a) Nid yw'r IPS dynodedig yn gwneud cyfraniad sylweddol at gylch gwaith unigol y PSB trwyddedig neu S4C;
b) Nid yw'n hawdd dod o hyd i'r cynnwys PSR yn yr IPS ac nid yw'n cael ei hyrwyddo gan y gwasanaeth; neu
c) Ni fyddai'n briodol i Ofcom ddynodi'r IPS.

A1.36 Wrth benderfynu a oes unrhyw un o'r meini prawf yn adran 362AB(2) yn cael eu bodloni, bydd Ofcom yn ystyried y materion a'r dystiolaeth a drafodwyd ym mharagraffau A1.18-1.33 uchod.

[81] Adran 362AA(7) o'r Ddeddf.

## Egwyddorion cyffredinol

A1.37 Byddwn yn egluro pam ein bod wedi defnyddio dull penodol yn ein penderfyniadau mewn perthynas â dynodi IPS neu ddirymu dynodiad a sut mae'r dull hwnnw'n cyd-fynd â'r dulliau a nodir yn y datganiad hwn.

A1.38 Fodd bynnag, efallai y byddwn yn ystyried ei bod yn briodol neu'n angenrheidiol dilyn gwahanol ddulliau i'r rhai a nodir yn y datganiad hwn. Os byddwn yn dilyn gwahanol ddulliau, byddwn yn egluro pam ein bod wedi gwneud hyn.

A1.39 Efallai y byddwn yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth yn adran 362AS y Ddeddf i gasglu tystiolaeth i lywio ein penderfyniadau mewn perthynas â'n penderfyniadau dynodi neu ddirymu.

A1.40 Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau mewn perthynas â dynodi IPS neu ddirymu dynodiad.

# A2. Y fframwaith cyfreithiol

A2.1 Mae'r atodiad hwn yn nodi'r fframwaith statudol ar gyfer dynodi gwasanaethau rhaglenni rhyngrwyd (IPS) o dan Ran 3A Deddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf), a fewnosodwyd yn y Ddeddf gan Ran 2 Deddf Cyfryngau 2024. Dim ond crynodeb o'r darpariaethau perthnasol yw'r atodiad hwn, nid yw'n cymryd lle cyfeirio at y statud.

A2.2 Mae dyletswyddau cyffredinol Ofcom hefyd yn berthnasol o ran cyflawni ei swyddogaethau, i hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.[82] Wrth wneud hynny, rhaid i Ofcom ystyried nifer o faterion gan gynnwys y dymuniad i hyrwyddo'r gwaith o gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU, pa mor ddymunol yw annog buddsoddiad ac arloesedd mewn marchnadoedd perthnasol, ac anghenion pobl ag anableddau.[83]

A2.3 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau cyffredinol, mae'n rhaid i Ofcom ystyried yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen cymryd camau, ac unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i Ofcom fel rhai sy'n cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau.[84]

A2.4 Fel yr esbonnir ymhellach isod, pan fydd IPS yn cael ei ddynodi gan Ofcom (IPS neu DIPS dynodedig), bydd darparwr y DIPS yn ddarostyngedig i amrywiol rwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf, gan gynnwys sicrhau bod y DIPS ar gael i wasanaethau dethol teledu (TSS)[85] sydd wedi'u dynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol (TSS neu RTSS a reoleiddir).

## Gwasanaethau rhaglenni rhyngrwyd (IPS)

A2.5 Cyfeirir at apiau teledu PSBs y gellir eu dynodi fel gwasanaethau rhaglenni rhyngrwyd (IPS). Mae'r Ddeddf yn diffinio IPS fel gwasanaeth sydd naill ai (i) yn wasanaeth rhaglenni ar-alw yn gyfan gwbl (ODPS) neu (ii) yn wasanaeth rhaglenni ar-alw ynghyd â gwasanaethau eraill (e.e. gwasanaethau rhaglenni teledu sy'n cael eu ffrydio'n fyw).[86]

## Gwasanaethau rhaglenni rhyngrwyd dynodedig (DIPS)

A2.6 Mae'r Ddeddf yn diffinio DIPS fel IPS:

- sy'n cael eu darparu gan y BBC;

[82] Adran 3(1) o'r Ddeddf.
[83] Adran 3(4)(a), (d) ac (i) o'r Ddeddf.
[84] Adran 3(3) o'r Ddeddf.
[85] Mae TSS yn wasanaeth neu'n rhan ddatgysylltiol o wasanaeth, sy'n cael ei ddarparu drwy gyfrwng y rhyngrwyd ac mewn cysylltiad ag Offer Teledu Rhyngrwyd (ITE) sy'n cynnwys (a) cyflwyno'r IPS sydd wedi'i gynnwys yn y gwasanaeth neu adran ddatgysylltiol y gwasanaeth; a (b) cyfleuster sy'n galluogi'r defnyddiwr i wneud y canlynol: (i) dewis rhwng yr IPS neu'r rhaglenni hynny a ddarperir gan yr IPS hynny neu'r ddau; ac (ii) cael mynediad i'r IPS neu'r rhaglen a ddewiswyd neu'r ddau (Adran 362AE(1) o'r Ddeddf. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol osod rheoliadau i ddiwygio'r diffiniad o "wasanaeth dethol teledu" neu "offer teledu rhyngrwyd" (adran 362AE(7)).
[86] Adran 362AA(10) a (11) o'r Ddeddf.

- sy’n cael eu darparu gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig neu S4C a’u dynodi gan Ofcom; neu
- sy’n cael eu darparu gan unigolyn sy’n gysylltiedig â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac sy’n cael eu dynodi gan Ofcom.

A2.7 Felly, rôl Ofcom yw dynodi IPS a ddarperir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C, yn ogystal â phobl sy’n gysylltiedig â’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[87]

# Darparwyr IPS a phersonau cysylltiedig

## Darparwyr IPS

A2.8 Yr unig unigolyn y gellir ei drin fel rhywun sy’n darparu IPS yw’r unigolyn sydd â rheolaeth gyffredinol dros y gwasanaeth.[88]

A2.9 Mae’r unigolyn sydd â rheolaeth gyffredinol dros y gwasanaeth yn golygu:

a) yn achos IPS lle mae’r rhaglenni wedi’u cynnwys mewn un gwasanaeth rhaglenni ar-alw (ODPS), yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb golygyddol dros y gwasanaeth rhaglenni ar-alw o fewn ystyr a368A(4) o’r Ddeddf;[89] neu
b) yn achos unrhyw IPS arall, yr unigolyn sydd â rheolaeth gyffredinol dros ba ODPS, ODPS nad ydynt yn rhai’r DU ac IPS sydd wedi’u cynnwys yn y gwasanaeth.[90]

A2.10 Mae’r Ddeddf yn gwahaniaethu rhwng IPS a ddarperir gan C4C ac S4C ar y naill law, ac IPS a ddarperir gan gwmnïau C4 ac S4C ar y llaw arall. Nid yw darparu IPS gan C4C nac S4C yn cynnwys darpariaeth gan gwmnïau C4 ac S4C. Felly, wrth benderfynu pwy sydd â rheolaeth gyffredinol dros y gwasanaeth, dylid diystyru rheolaeth sy’n cael ei harfer, neu y gall cael ei harfer, gan C4C neu S4C dros benderfyniadau gan gwmni C4 neu S4C ynghylch yr hyn sydd i’w gynnwys mewn gwasanaeth.[91]

## Unigolion cysylltiedig

A2.11 Mae unigolyn yn gysylltiedig â Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus os:

a) yw’r unigolyn yn gorff corfforedig (e.e. cwmni) sy’n cael ei reoli gan y Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus; neu
d) lle mae’r PSB yn darparu gwasanaeth Channel 3 neu Channel 5, mae’r unigolyn a’r PSB yn gyrff corfforaethol (e.e. cwmnïau) sy’n cael eu rheoli gan yr un unigolyn.[92]

A2.12 Mae gan ‘rheolaeth’ yr un ystyr ag ym mharagraff 1(3) Rhan 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Darlledu 1990,[93] sy’n nodi y gellir ystyried bod unigolyn yn ‘rheoli’ cwmni mewn unrhyw un o’r tri senario canlynol:

---

[87] Mae Adran 362AA(2) o’r Ddeddf hefyd yn rhoi’r pŵer i Ofcom ddynodi IPS a ddarperir gan unigolyn sy’n gysylltiedig â’r BBC pan fo’r amodau yn Adran 362AA(5) wedi’u bodloni. Nid yw’r darpariaethau hyn wedi cael eu dwyn i rym ar hyn o bryd ac felly nid ydynt yn cael eu hystyried yn y ddogfen hon.
[88] Adran 362AZ12(2) o’r Ddeddf.
[89] Adran 362AZ12(3) o’r Ddeddf.
[90] Adran 362AZ12(4) o’r Ddeddf.
[91] Adran 362AZ12(5) o’r Ddeddf.
[92] Adran 362AZ12(6) o’r Ddeddf.
[93] Adran 362AZ12(7) o’r Ddeddf. Mae Ofcom wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch rheoli cwmnïau cyfryngau.

- **‘Buddiant Mwyafrifol’:** Mae unigolyn yn rheoli cwmni os bydd yn dal, neu os bydd ganddo hawl lesiannol i fwy na 50 y cant o gyfalaf cyfran ecwiti yn y corff, neu’n meddu ar fwy na 50 y cant o’r pŵer pleidleisio yn y corff;
- **‘Rheolaeth De facto’:** Hyd yn oed pan nad oes gan unigolyn fuddiant mwyafrifol, ystyrir ei fod yn rheoli cwmni lle mae'n rhesymol, o ystyried yr holl amgylchiadau, i ddisgwyl y byddant (os dewisant) yn gallu, yn y rhan fwyaf o achosion neu mewn ffyrdd arwyddocaol, drwy ba fodd bynnag, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, cyflawni'r canlyniad bod materion y corff yn cael eu cynnal yn unol â'u dymuniadau;
- **‘Trefniant rheoli’:** Mae unigolyn hefyd yn rheoli cwmni lle mae ganddo, neu lle mae ganddo hawl lesiannol i, 50 y cant o gyfalaf cyfranddaliadau ecwiti’r cwmni, neu’n meddu ar 50 y cant o’r pŵer pleidleisio yn y cwmni, ac mae ganddo drefniant gydag unrhyw gyfranogwr arall yn y cwmni o ran sut y mae unrhyw bŵer pleidleisio sydd gan y naill neu’r llall ohonynt i’w arfer neu beidio.

# Meini Prawf Dynodi

A2.13 Caiff Ofcom ddynodi IPS a ddarperir gan PSB trwyddedig neu S4C os bodlonir yr amodau canlynol:

a) Mae’r IPS yn gwneud cyfraniad sylweddol, neu’n gallu gwneud cyfraniad sylweddol, at gylch gwaith unigol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig neu S4C;
b) Mae rhaglenni sydd wedi’u cynnwys yn yr IPS sy’n cyfrannu at gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig neu S4C (y cyfeirir atynt yn y Ddeddf fel ‘cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus’) yn hawdd i’w darganfod ac yn cael eu hyrwyddo gan y gwasanaeth; a
c) Mae Ofcom yn credu ei bod yn briodol dynodi’r IPS.[94]

## ‘Priodoldeb’

A2.14 Wrth ystyried a yw’n briodol dynodi darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig neu IPS S4C, rhaid i Ofcom ystyried (ymysg pethau eraill):

- Y cynigion yn SoPP y PSB hwnnw o ran y cyfraniad y bydd yr IPS yn ei wneud tuag at gyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol y PSB;
- A yw’r cyfraniad arfaethedig hwnnw’n gallu bodloni anghenion a buddiannau amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd (neu gynulleidfa benodol yn achos ail neu IPS arall); a
- Pa mor effeithiol yw gwaith y Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus o fonitro ei berfformiad mewn perthynas â chyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol y Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus.

[94] Adran 362AA(2), (3) a (4) o’r Ddeddf.

# Cylchoedd gwaith a Datganiadau Polisi Rhaglenni ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus

## Cylchoedd gwaith unigol

A2.15 Mae gan bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus ac S4C gylch gwaith unigol y mae'n rhaid iddynt ei gyflawni.

A2.16 Cylch gwaith unigol gwasanaethau Sianel 3 a Sianel 5 yw sicrhau bod amrywiaeth o raglenni amrywiol o ansawdd uchel ar gael.[95]

A2.17 Cylch gwaith unigol C4C yw sicrhau bod ystod eang o raglenni amrywiol o ansawdd uchel.[96] Rhaid i'r rhaglenni hyn, yn benodol:

- dangos arloesedd, arbrofi a chreadigrwydd;
- apelio at chwaethau a diddordebau cymdeithas ddiwylliannol amrywiol;
- cynnwys llawer iawn o gynnwys addysgol; a
- chael cymeriad unigryw.

A2.18 Cylch gwaith unigol S4C yw sicrhau bod ystod eang o raglenni amrywiol o ansawdd uchel ar gael, gyda chyfran sylweddol ohonynt yn Gymraeg.[97]

A2.19 Dylai'r rhaglenni a gyhoeddir gan bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C i gyflawni eu cylchoedd gwaith unigol allu cael eu hystyried at ddibenion asesu i ba raddau mae cylch gwaith cyffredinol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei gyflawni, a dylai fod yn gyfraniad digonol at gyflawni cylch gwaith cyffredinol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

## Cylch gwaith cyffredinol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

A2.20 Mae'r cylch gwaith cyffredinol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei gyflawni pan fydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (y BBC, y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C), gyda'i gilydd, yn darparu amrywiaeth eang o raglenni sydd:[98]

a) Yn diwallu anghenion ac yn bodloni buddiannau cynifer o wahanol gynulleidfaoedd â phosibl, gan ystyried y ffordd y mae pobl yn cael gafael ar y rhaglenni, a phryd maen nhw'n cael gafael arnyn nhw, yn ogystal â natur y rhaglenni a'r pynciau dan sylw.
b) Yn cynnig newyddion a materion cyfoes cynhwysfawr ac awdurdodol, yn y DU (ac mewn gwahanol rannau o'r DU) ac yn fyd-eang, i gefnogi dealltwriaeth ddinesig a thrafodaeth deg a gwybodus.
c) Yn gwasanaethu fel gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer gwybodaeth, addysg ac adloniant, gan gynnwys rhaglenni sy'n:
    i) adlewyrchu bywydau a phryderon gwahanol gymunedau a thraddodiadau diwylliannol y DU; ac
    ii) yn yr ieithoedd Cymraeg, Gaeleg, Gwyddeleg, Sgoteg, Sgoteg Ulster, neu Gernyweg.

[95] Adran 265(2) o'r Ddeddf.
[96] Adran 265(3) o'r Ddeddf.
[97] Paragraff 3(2) o Ran 2 o Atodlen 12 o'r Ddeddf.
[98] Adran 264(4)-(6) o'r Ddeddf.

d) Yn cynnwys cynyrchiadau gwreiddiol sy'n adlewyrchu bywydau a phryderon plant a phobl ifanc yn y DU, sy'n addysgol, ac sy'n eu helpu i ddeall y byd.
e) Yn cynnwys amrywiaeth a nifer addas o gynyrchiadau annibynnol, cynyrchiadau gwreiddiol, a rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i'r M25.
f) Yn cwmpasu ystod briodol o genres.

A2.21 Mae cylch gwaith cyffredinol PSB yn rhwymedigaeth ar y cyd ar yr holl PSBs, ac mae'n rhaid iddyn nhw gyflawni'r cylch gwaith gyda'i gilydd. Mae'r drefn yn cynnig hyblygrwydd o ran cyfraniadau unigol PSBs i'r cylch gwaith PSB cyffredinol, ond er mwyn cyflawni eu cylchoedd gwaith unigol, mae'n rhaid i bob PSB trwyddedig ac S4C wneud cyfraniad digonol at y cylch gwaith PSB cyffredinol.

## Datganiadau Polisi Rhaglenni (SoPPs)

A2.22 Mae'n rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C gynhyrchu SoPPs bob blwyddyn.[99] Rhaid i'r SoPPs:

- nodi sut bydd cylch gwaith unigol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, sy'n cynnwys gwneud cyfraniad digonol at y cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus cyffredinol, yn cael ei gyflawni yn y flwyddyn i ddod;
- nodi sut bydd ei ofynion sy'n ymwneud â chwotâu rhaglenni, darpariaeth newyddion, gwneud rhaglenni rhanbarthol a chomisiynu yn cael eu cyflawni;[100]
- datgan pa wasanaethau clyweledol perthnasol[101] fydd yn cael eu defnyddio i gyfrannu at gyflawni cylch gwaith unigol y PSB, ac os felly, sut; a
- chynnwys adolygiad perfformiad ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

A2.23 Wrth baratoi SoPPs, rhaid i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C rhoi sylw i ganllawiau Ofcom, ystyried adroddiadau ffeithiol ac ystadegol blynyddol Ofcom ac adolygiadau o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, a rhoi sylw arbennig i'r rhai diweddaraf. Rhaid iddynt gyhoeddi'r SoPP cyn gynted â phosibl ar ôl iddo gael ei gwblhau, gan roi sylw i ganllawiau Ofcom ynghylch y dull cyhoeddi.

# Dirymu dynodiad

A2.24 Gellir dirymu dynodiad IPS mewn dwy senario:

- **Dirymu awtomatig:** Mae dynodiad IPS sy'n cael ei ddarparu gan unigolyn sy'n gysylltiedig â darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig neu S4C yn cael ei ddirymu pan fydd yr unigolyn hwnnw'n peidio â bod yn gysylltiedig â'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus dan sylw.[102] Rhaid i'r unigolyn roi hysbysiad i Ofcom ei fod wedi peidio â bod yn gysylltiedig â'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus dan sylw. Dylid rhoi gwybod mewn ffordd sy'n cynnwys unrhyw wybodaeth y bydd ar Ofcom ei hangen.[103]

[99] Adran 266(1) o'r Ddeddf.
[100] Mae'r gofynion wedi'u nodi yn Adrannau 277 i 296 (yn achos y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig) ac Atodlen 12 Rhan 2 (yn achos S4C) o'r Ddeddf.
[101] Adran 264(11) o'r Ddeddf.
[102] Adran 362AB(1) o'r Ddeddf.
[103] Adran 362AD(1) a (2) o'r Ddeddf.

- **Dirymu gan Ofcom:** Rhaid i Ofcom ddirymu dynodiad IPS os yw'r darparwr IPS yn gofyn i ni wneud hynny.[104] Gallwn hefyd benderfynu dirymu dynodiad IPS os ydym yn credu bod sail resymol dros gredu nad yw'r IPS yn bodloni'r meini prawf dynodi.[105] Os byddwn yn penderfynu dirymu dynodiad IPS ar y sail hon, byddwn yn rhoi rhybudd i'r darparwr IPS gan nodi'r sail a'r rhesymau dros ein barn nad yw'r IPS yn bodloni'r meini prawf dynodi.[106] Byddwn hefyd yn egluro pam ein bod yn cynnig dirymu dynodiad yr IPS.[107] Bydd y darparwr IPS yn cael cyfle i ymateb i'r hysbysiad a chyflwyno sylwadau i Ofcom, a bydd yr hysbysiad yn nodi rhagor o fanylion am hyn, gan gynnwys y cyfnod ar gyfer cyflwyno'r sylwadau hynny.[108] Ar ôl i'r cyfnod amser a ganiateir ar gyfer sylwadau ddod i ben, bydd Ofcom yn dod i benderfyniad terfynol ac yn rhoi gwybod i'r darparwr IPS am y penderfyniad hwn.[109]

## Datganiad Ofcom am ddulliau

A2.25 Mae gan Ofcom ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi datganiad sy'n rhoi gwybodaeth am y dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth benderfynu'r canlynol:

- a yw'r amodau ar gyfer dynodi IPS wedi cael eu bodloni; ac
- a oes sail resymol dros gredu nad yw IPS yn bodloni un neu fwy o'r amodau dynodi, fel bod Ofcom yn cynnig dirymu dynodiad yr IPS hwnnw.[110]

A2.26 Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau casglu gwybodaeth i Ofcom y gellir eu defnyddio i gael gafael ar wybodaeth sy'n angenrheidiol yn ein barn ni er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch y materion hyn.[111]

## Effeithiau dynodiad

### Cyflwyno gofynion newydd ar gyfer DIPS a RTSS

A2.27 Pan fydd IPS a TSS yn cael eu dynodi, rhaid i ddarparwyr y DIPS a'r RTSS hynny gydymffurfio â'r drefn newydd. Darparwr DIPS fydd y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus perthnasol, neu'r unigolyn sy'n gysylltiedig â'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus hwnnw.[112] Darparwr RTSS fydd yr unigolyn sydd â rheolaeth gyffredinol dros y ffordd y mae'r TSS yn cyflwyno'r IPS sydd wedi'i gynnwys yn y gwasanaeth i'w ddefnyddwyr.[113]

A2.28 Bydd darparwyr DIPS yn ddarostyngedig i rwymedigaeth 'rhaid cynnig', a bydd darparwyr RTSS yn ddarostyngedig i rwymedigaeth 'rhaid cario'.

---

[104] Adran 362AB(7) o'r Ddeddf.
[105] Adran 362AB(2) o'r Ddeddf.
[106] Adran 362AB(3)(a) - (b) o'r Ddeddf.
[107] Adran 362AB(3)(c) o'r Ddeddf.
[108] Adran 362AB(3)(d) - (e) o'r Ddeddf.
[109] Adran 362AB(4) o'r Ddeddf.
[110] Adran 362AC(1) o'r Ddeddf.
[111] Adran 362AS o'r Ddeddf.
[112] Adran 362AA(2) o'r Ddeddf.
[113] Adran 362AE(5) o'r Ddeddf. Mae adran 362AE(6) o'r Ddeddf yn dweud nad yw'r ffaith bod TSS yn dibynnu i unrhyw raddau ar algorithmau i bennu'r amlygrwydd a roddir i IPS neu unrhyw raglen a ddarperir gan yr IPS yn atal unigolyn rhag cael rheolaeth gyffredinol.

A2.29 Mae'r gofynion 'rhaid cynnig' a 'rhaid cario' ar DIPS ac RTSS wedi'u dylunio i sicrhau bod DIPS yn cael lefel briodol o amlygrwydd a bod eu cynnwys yn dal ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd, er gwaethaf yr amrywiaeth gynyddol o ran cael gafael ar gynnwys sy'n cael ei ddarparu gan lwyfannau teledu cysylltiedig a gwasanaethau fideo ar-alw.

A2.30 Mae'r rhwymedigaeth 'rhaid cynnig' yn golygu bod yn rhaid i ddarparwr DIPS gynnig ei DIPS i bob darparwr RTSS.[114] Rhaid i'r darparwr DIPS wneud ei orau i sicrhau, mewn perthynas â phob RTSS, bod cytundebau'n cael eu gwneud a'u cadw mewn grym i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnwys yn y RTSS.[115]

A2.31 Mae'r rhwymedigaeth "rhaid cario" yn golygu bod yn rhaid i ddarparwr RTSS, mewn perthynas â phob DIPS, ymrwymo i drefniadau gyda darparwr y DIPS er mwyn i'r RTSS gynnwys y DIPS hwnnw a chadw trefniadau o'r fath mewn grym.[116] Bydd angen i ddarparwyr RTSS sicrhau hefyd fod y DIPS, a, lle bo'n briodol, y cynnwys ar y DIPS sy'n cyfrannu at gyflawni cylchoedd gwaith unigol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, wedi'u lleoli'n amlwg ar eu gwasanaethau[117] a bod y gwasanaethau hyn ar gael i'r rheini sydd ag anableddau (yn enwedig y rheini sy'n effeithio ar eu golwg neu eu clyw).[118]

A2.32 Mae darparwyr DIPS ac RTSS yn destun dyletswyddau parhaus.[119] I ddarparwyr DIPS, mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt sicrhau bod yr amodau dynodi a ddisgrifir ym mharagraffau A2.13(a) a (b) uchod yn dal i gael eu bodloni. Mae gan ddarparwyr DIPS a RTSS hefyd ddyletswydd i weithredu'n gyson ag 'amcanion y cytundeb' wrth negodi'r trefniadau sy'n ofynnol i fodloni gofynion eu rhwymedigaethau 'rhaid cario' a 'rhaid cynnig'.[120] Amcanion y cytundeb yw:

a) DIPS yn cael lefel briodol o amlygrwydd mewn RTSS (sy'n ymgorffori cynnwys PSR ac unrhyw sianel restredig sydd wedi'i chynnwys yn y DIPS);[121]
b) nad yw'r trefniadau rhwng y darparwyr yn cael effaith niweidiol ar allu'r PSBs trwyddedig neu S4C i gyflawni eu gorchwylion unigol[122]; a
c) nid yw trefniadau'n cyfyngu'n anghymesur ar y ffordd y gall darparwr RTSS wneud datblygiadau arloesol o ran y ffyrdd y gall defnyddwyr ddewis a chael mynediad at IPS.[123]

A2.33 Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn paratoi ac yn cyhoeddi canllawiau ynghylch sut gall darparwyr DIPS a darparwyr RTSS weithredu'n gyson ag amcanion y cytundeb.[124]

---

[114] Adran 362AJ(1) o'r Ddeddf.
[115] Adran 362AJ(2) o'r Ddeddf. Mae rhwymedigaeth ar wahân ar gyfer unrhyw IPS a ddarperir gan y BBC (Adran 362AJ(4)). Mae manylion rhwymedigaethau'r BBC yn unol â Chytundeb y BBC ar gael ym Mharagraff 1.11 – 1.13 o Bolisi Dosbarthu'r BBC a Chymal B13 o weithgareddau masnachol a masnachu'r BBC: gofynion a chanllawiau – atodiad 3.
[116]Adran 362AK o'r Ddeddf.
[117] Adran 362AO(1) a (3) o'r Ddeddf.
[118] Adran 362AO(4) o'r Ddeddf.
[119] Adrannau 362AN a 362AO o'r Ddeddf.
[120] Adran 362AM o'r Ddeddf.
[121] Adran 362AM(1)(a) o'r Ddeddf.
[122] Adran 362AM(1)(b) o'r Ddeddf.
[123] Adran 362AM(1)(c) o'r Ddeddf.
[124] Rhaid i ganllawiau Ofcom hefyd gynnwys sut gall y BBC weithredu'n gyson ag amcanion y cytundeb wrth gyflawni unrhyw un o'i ddyletswyddau o dan Siarter a Chytundeb y BBC, sy'n debyg i'r gofyniad ar ddarparwyr DIPS eraill o dan Adran 362AJ(3) (Adran 362AL(2) o'r Ddeddf).

A2.34 Mae'r Ddeddf yn rhoi swyddogaeth datrys anghydfod[125] a phwerau gorfodi i Ofcom.[126]

## Dyletswydd twf economaidd

A2.35 Mae Adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 yn nodi dyletswydd Ofcom i ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo twf economaidd wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio. Er mwyn ystyried hyrwyddo twf economaidd, bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau:

a) Bod camau rheoleiddiol yn cael eu cymryd dim ond pan fydd eu hangen; a
b) Bod unrhyw gamau a gymerir yn gymesur.[127]

A2.36 Mae canllawiau statudol y llywodraeth ar y ddyletswydd hon yn cydnabod bod ysgogwyr twf economaidd yn cynnwys arloesedd a chystadleuaeth.

## Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

A2.37 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

A2.38 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (Deddf 1998) hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

## Dyletswydd y Gymraeg

A2.39 Gwnaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gosod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r safonau a roddwyd ar Ofcom wedi cael eu rhestru yn hysbysiad cydymffurfio Ofcom a ddaeth i rym ar 25 Ionawr 2017.

A2.40 Mae'r Safonau Llunio Polisi Iaith Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom asesu (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio polisi newydd neu adolygu neu ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli.

[125] Adrannau 362AT - 263AY o'r Ddeddf.
[126] Adrannau 362AZ - 362AZ5 o'r Ddeddf.
[127] Adran 108(2)(b) Deddf Dadreoleiddio 2015.

# A3. Asesiadau effaith

## Asesu effaith ein cynigion

A3.1 Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf) yn mynnu ein bod yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Mae asesiadau effaith yn ein helpu i ddeall ein penderfyniadau polisi a pham rydyn ni'n credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf.[128]

A3.2 Mae'r asesiad effaith a gynhaliwyd ar gyfer yr ymgynghoriad hwn wedi'i gynnwys yn adran 4 lle rydym wedi ystyried effeithiau posibl y dulliau rydym yn cynnig eu defnyddio wrth ddynodi IPS. Yn gyffredinol, rydym o'r farn y bydd ein cynigion o fudd i gynulleidfaoedd gan y byddant yn sicrhau bod DIPS yn caniatáu iddynt gael gafael ar y cynnwys amrywiol o ansawdd uchel sy'n ofynnol gan orchwylion y PSBs, a'u canfod yn rhwydd.

A3.3 Byddwn yn cynnal asesiad effaith pellach wrth ymgynghori ynghylch ein penderfyniadau dynodi arfaethedig.

## Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

A3.4 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf 2010[129]. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

A3.5 Mae gan Ofcom ddyletswyddau ar wahân ond ategol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb Gogledd Iwerddon[130]. Mae hyn yn mynnu bod Ofcom yn sgrinio polisïau am eu heffaith ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da ym mhob un o'r naw categori cydraddoldeb a nodwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

A3.6 Nid ydym yn ystyried y bydd y dulliau rydym yn eu cynnig yn cael unrhyw effeithiau niweidiol ar gydraddoldeb. Byddwn yn cynnal asesiad pellach o'r effaith ar gydraddoldeb wrth ymgynghori ynghylch ein penderfyniadau dynodi arfaethedig.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

A3.7 Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.[131] I roi hyn ar waith, rhaid i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o ran defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys yr egwyddor gyffredinol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r

[128] Ofcom, Canllawiau Asesu Effaith, 2023.
[129] Y nodweddion gwarchodedig hyn yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.
[130] Adran 75, Deddf Gogledd Iwerddon 1998.
[131] Adran 1(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Saesneg yng Nghymru.[132] Yn unol â hyn, rydyn ni wedi ystyried effaith bosib ein hadolygiad ar (i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

A3.8 Ystyriwn na fyddai'r dulliau rydym wedi eu cynnig yn trin y Gymraeg yn wahanol i'r Saesneg nac yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym yn disgwyl y bydd y drefn newydd o fudd i siaradwyr Cymraeg drwy sicrhau bod ganddynt fynediad at gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg. Byddwn yn cynnal asesiad pellach o'r effaith ar yr iaith Gymraeg wrth ymgynghori ynghylch ein penderfyniadau dynodi arfaethedig.

[132] Mae safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i Ofcom gydymffurfio â nhw ar gael ar ein gwefan.

# A4. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A4.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 25 Mawrth 2025.

A4.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb yn https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/INSERT URL. Cewch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A4.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol eraill, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost at mediaact.part2@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. Bydd y cyfeiriad e-bost hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr ymgynghoriad hwn ac ymgyngoriadau pellach sy'n ymwneud â gweithredu Rhan 3A Deddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf), a fewnosodwyd yn y Ddeddf gan Ran 2 Deddf Cyfryngau 2024.

A4.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl yr ymgynghoriad arnynt:

Tîm Polisi Cynnwys
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

A4.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A4.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).

A4.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A4.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydyn ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A4.9 Byddai'n ddefnyddiol pe gallai eich ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn atodiad 7. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe bai modd i chi esbonio pam rydych chi'n arddel eich safbwyntiau, a beth fyddai effaith cynigion Ofcom yn eich barn chi.

A4.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â'r tîm drwy anfon neges e-bost i mediaact.part2@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A4.11 Mae ymgyngoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A4.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A4.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A4.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A4.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A4.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod haf 2025.

A4.17 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A4.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosib ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn atodiad 5.

A4.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn croesawu syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A4.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

A4.21 Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House

2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A5. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A5.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A5.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydyn ni'n ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A5.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A5.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosib ein cynigion.

A5.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosib yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y ffordd rydyn ni'n cynnal ein hymgyngoriadau.

A5.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A5.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

# A6. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosib y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw eich ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y

byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A7. Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Yr Is-bennawd

A7.1 Mae'r blwch isod yn cyflwyno'r cwestiynau a ofynnwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'n dulliau arfaethedig ar gyfer penderfynu a yw'r IPS yn gwneud cyfraniad arwyddocaol, neu'n gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol, at orchwyl gwasanaeth cyhoeddus unigol y PSB?

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'n dulliau arfaethedig ar gyfer penderfynu a yw'r cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'i gynnwys yn yr IPS yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo gan y gwasanaeth?

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'n dulliau arfaethedig ar gyfer penderfynu a yw'n briodol dynodi Gwasanaeth Rhaglenni Rhyngrwyd?

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'n proses arfaethedig i Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus wneud cais i ddynodi Gwasanaeth Rhaglenni Rhyngrwyd?

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'n dulliau arfaethedig ar gyfer dirymu dynodiad Gwasanaeth Rhaglenni Rhyngrwyd?